



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.wales.gov.uk



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

Canllawiau

Modelau Cyflawni

Fersiwn 2

Chwefror 2016

Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng
Nghymru
EU Funds:
Investing in Wales



HANES Y FERSIWN

Fersiwn	Dyddiad	Sylwadau
1	Mawrth 2015	Y fersiwn gyntaf a gyhoeddwyd ar wefan WEFO
2	Chwefror 2016	• Mân ddiweddariadau / aileirio er mwyn eglurder. • Newid yn y dull ar gyfer Atodiad E, Senario 2.

CYNNWYS

CYFLWYNIAD	5
Cwmpas a diben.....	5
Cyflwyniad i fodelau rheoli a chyflawni	5
RHAN 1: GWEITHREDIADAU, PROSIECTAU A BUDDIOLWYR	7
1.1 Gweithrediadau a phrosiectau.....	7
1.2 Buddiolwyr.....	10
1.2.1 Buddiolwyr mewn gweithrediadau cydweithredol (buddiolwyr arweiniol a chyd-fuddiolwyr).....	11
1.2.2 Sefydliadau newydd sy'n gwneud cais i ddod yn fuddiolwr	13
1.2.3 Buddiolwyr cynlluniau grant (pan fyddant yn ddarostyngedig i reolau Cymorth gwladwriaethol)	14
RHAN 2: TREFNIADAU CYFLAWNI.....	15
2.1 Darpariaeth uniongyrchol gan fuddiolwyr	15
2.2 Darpariaeth dan gontract/gaffael	15
2.3 Cynlluniau grant	17
2.3.1 Grantiau sy'n ddarostyngedig i reolau Cymorth gwladwriaethol	17
2.3.2 Cynlluniau grantiau y tu allan i gwmpas rheolau Cymorth gwladwriaethol	19
2.4 Cyfuno dulliau cyflawni.....	22
RHAN 3: CRYNODEB 23	
3.1 Crynodeb.....	23
3.2 Ôl-nodion.....	23

RHAN 4: ATODIADAU	25
ATODIAD A - Terminoleg: enghraifft weithredol (<i>enghreiffiol yn unig - nid yn benodol i Gymru</i>).....	25
ATODIAD B - Gweithrediadau cydweithredol: cytundeb partneriaeth a rhestr wirio enghreifftiol.....	27
ATODIAD C - Gweithrediadau cydweithredol: rheolaethau, archwiliadau a gwiriadau.....	31
ATODIAD CH - ‘Gweithgarwch economaidd’ o fewn cyd-destun rheolau Cymorth gwladwriaethol	33
ATODIAD D - Ddarpariaeth Uniongyrchol neu Gaffael: Achosion Penodol	35
<i>Senario 1</i>	35
<i>Senario 2</i>	37
<i>Senario 3</i>	39
<i>Senario 4</i>	40

CYFLWYNIAD

Cwmpas a diben

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r amrywiaeth o drefniadau rheoli a chyflawni – 'modelau cyflawni' – a ddefnyddir i weithredu prosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru.

Dim ond i grantiau a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) neu Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yng Nghymru y mae'r modelau hyn yn gymwys. Felly, nid yw'r canllawiau yn gymwys i fathau eraill o gymorth ariannol gan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar ffurf offerynnau ariannol - cymorth ad-daladwy megis benthychiadau a buddsoddiadau ecwiti - nac i raglenni a chronfeydd eraill yr UE.

Yn olaf, er bod y canllawiau hyn yn mynd i'r afael â'r mater ynghylch pryd y gall y broses gaffael neu, y mae'n rhaid iddi, gael ei defnyddio i helpu i gyflawni prosiectau, nid yw'r rheolau na'r gweithdrefnau ar sut i gynnal ymarfer caffael o fewn cwmpas y ddogfen hon. Yn yr un modd, nid yw'r ddogfen hon yn anelu at roi cyngor ar gydymffurfio â rheolau Cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd.

Cyflwyniad i fodelau rheoli a chyflawni

Er bod deddfwriaeth yr UE yn pennu'r rheolau sylfaenol a'r diffiniadau ar sut y mae'n rhaid i raglenni'r Cronfeydd Strwythurol gael eu rhoi ar waith - er enghraifft, drwy ddiffinio 'buddiolwr' a 'gweithrediad' - mae hyblygrwydd o hyd i lunio modelau cyflawni sy'n addas ar gyfer trefniadau cenedlaethol a rhanbarthol. Gall yr awdurdod rheoli rhaglenni (WEFO) ddiffinio'r hyn sy'n gyfystyr â 'phrosiect' at ddibenion archwilio a rheoli a phenderfynu sut y caiff grwpiau o brosiectau cysylltiedig a ariennir eu cymeradwyo a'u gweinyddu.

Gan barhau â'r dull llwyddiannus a ddefnyddiwyd yn rhaglenni 2007-2013, mae tair egwyddor allweddol sy'n sail i'r modelau cyflawni:

- Buddsoddir cyllid rhaglenni mewn nifer gymharol fach o fuddsoddiadau â ffocws strategol, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i sefydliadau gydweithio ac ychwanegu gwerth;
- Cynllunnir modelau cyflawni gyda'r prif nod o gyflawni defnydd effeithiol, darbodus, effeithlon a chydysniol o gronfeydd yr UE;
- Rhaid i fodelau cyflawni helpu i hwyluso dosbarthiad cyfiawn a theg o gronfeydd yr UE i'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gwaith a'r gwasanaethau, a rhaid i hyn gael ei gydbwyso â'r angen i gyflawni gwerth am arian a pharch tuag at reolau Cymorth gwladwriaethol yr UE.

Mae'r tair egwyddor graidd hyn yn golygu bod angen diffinio'n glir y rolau, y cyfrifoldebau a'r cydberthnasau rhwng yr ymgeisydd am gyllid; y sefydliadau sy'n rheoli'r prosiectau; timau cyflawni; a, lle y bo'n gymwys, y bobl a'r busnesau sy'n cael cymorth ariannol.

Er mwyn helpu i benderfynu ar fodel cyflawni priodol, mae'n bwysig deall beth yw ystyr "gweithrediadau", eu "prosiectau", a'r "buddiolwyr".

1) Beth yw'r **gweithrediad**?

- Mae WEFO yn dyfarnu cyllid ar gyfergweithrediadau. Gallai'r gweithrediad cynnwys un neu sawl prosiect, efallai cannoedd o brosiectau mewn cynlluniau grant ar raddfa fawr.
- Lle mae WEFO wedi dynodi Corff Canolraddol er mwyn helpu i reoli gweithrediadau sy'n ymwneud â llawer o brosiectau, megis cynllun grant, bydd y Corff Canolraddol yn dewis buddiolwyr ac yn dyfarnu cyllid drwy weithrediad a gymeradwyir gan WEFO. Hynny yw, nid yw Cyrff Canolraddol yn cymeradwyo gweithrediadau – dim ond WEFO a all ymgymryd â'r rôl hon.

2) Beth yw'r **prosiectau** a phwy yw **buddiolwr** y gweithrediad?

- Prosiect yw'r gweithrediadau /y gweithgareddau a gyflawnir gan fuddiolwr gweithrediad. Felly mae gweithrediad, gyda phedwar buddiolwr er enghraifft, yn cynnwys pedwar prosiect. Mewn geiriau eraill, mae nifer y buddiolwyr mewn gweithrediad yn pennu nifer y prosiectau unigol.
- Dim ond WEFO, neu mewn achosion penodol Gorff Canolraddol, all ddethol buddiolwyr (ac o ganlyniad, gymeradwyo prosiectau).
- Mewn achosion lle bo'n nod i'r gweithrediad ddyfarnu grantiau (cymorth ariannol uniongyrchol) a bod y cymorth hwnnw ar ffurf Cymorth gwladwriaethol, y sefydliad sy'n cael y cymorth ariannol yw buddiolwr y gweithrediad, nid y corff sy'n dyfarnu'r grant. Felly, mewn rhai achosion megis cynlluniau grant ar raddfa fwy, gall WEFO benderfynu cymeradwyo dyraniad o gyllid i weithrediad (y gronfa grant) ond wedyn gall ddirprwyo'r cyfrifoldeb am ddethol y buddiolwyr a dyfarnu grantiau i Gorff Canolraddol. Gallai'r corff hwnnw fod yn adran arall o Lywodraeth Cymru neu sefydliad allanol.

Mae **Rhan 1** yn esbonio'r ystyriaethau hyn yn fanylach.

RHAN 1: GWEITHREDIADAU, PROSIECTAU A BUDDIOLWYR

1.1 Gweithrediadau a phrosiectau

Cyn cytuno ar fodel cyflawni addas gyda WEFO, mae'n hanfodol deall ystyr rhai termau pwysig a ddefnyddir gan WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd.

Bwriedir i amcanion a chanlyniadau a ddymunir rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru gael eu cyflawni gan WEFO a fydd yn rhoi cyllid i nifer o 'weithrediadau'.

Gall gweithrediad gynnwys un prosiect (gellir defnyddio'r term 'prosiect'/'gweithrediad' yn gyfnewidiol mewn achosion o'r fath) neu - yn fwy nodweddiadol - grŵp o brosiectau cysylltiedig. Mewn achosion o'r fath, tybir bod pob buddiolwr yn rhoi prosiect penodol ar waith o fewn y gweithrediad.

Rhoddir enghraifft weithredol yn **Atodiad A**.

Mae diffinio'r 'prosiectau' mewn gweithrediad yn gam hollbwysig gan fod angen sicrhau y gall pob prosiect gael ei nodi ar wahân at ddibenion gweinyddol, adrodd ac archwilio.

Er enghraifft, gall archwilwyr ddewis archwilio un prosiect yn unig hyd yn oed os yw'r gweithrediad yn cynnwys grŵp o brosiectau. Wrth gyflwyno hawliadau rheolaidd am daliadau i WEFO, rhaid i'r rhestr wedi'i heitemeiddio o gostau cymwys ac incwm a gafwyd ar gyfer y cyfnod hawlio enwi'r prosiect (y buddiolwr) y mae'r trafodion yn ymwneud ag ef.

Felly, mae'n bwysig deall a yw WEFO yn credu bod gweithrediad yn cynnwys mwy nag un prosiect:

Cyd-fuddiolwyr

Lle mae WEFO yn cymeradwyo cynnwys un neu fwy o gyd-fuddiolwyr mewn gweithrediad cydweithredol, ystyrir bod pob buddiolwr yn rheoli ei brosiect penodol ei hun. Mae pob prosiect, drwy gytundeb â'r buddiolwr arweiniol, yn cynnal ei weithgareddau ei hun, yn ysgwyddo ei gostau ei hun ac yn cyfrannu at dargedau allbwn a chanlyniadau'r gweithrediad.

Er enghraifft: mae gweithrediad yn cynnwys buddiolwr arweiniol ac un cyd-fuddiolwr arall a gymeradwywyd gan WEFO. Felly mae'r gweithrediad hwn yn cynnwys dau brosiect, un a reolir gan y buddiolwr arweiniol a'r llall gan y cyd-fuddiolwr.

Gweithrediadau sy'n darparu cynlluniau grant (Cymorth gwladwriaethol)

Mewn gweithrediadau a sefydlwyd fel cynllun grant i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i gwmnïau¹ drwy gydol y broses o roi'r gweithrediad ar waith, y sefydliadau sy'n cael y cymorth - derbynwyr y Cymorth gwladwriaethol - yw buddiolwyr y gweithrediad. Nid y corff dyfarnu grant yw'r buddiolwr. Felly ystyrir bod pob buddiolwr yn rhoi prosiect ar waith yn y gweithrediad hwn.

- Mae angen cymryd gofal i osgoi cyfrif nifer y prosiectau mewn gweithrediadau o'r fath ddwywaith lle y darperir rhandaliadau ychwanegol o gymorth ariannol i'r un buddiolwr at yr un diben buddsoddi (ond un prosiect o hyd er gwaethaf sawl rhandaliad). Fodd bynnag, mae'r un buddiolwr sy'n defnyddio cyllid o'r un gweithrediad cynllun grant ar gyfer buddsoddiad digyswllt - nid estyniad o'r cyllid blaenorol - yn arwain at 'brosiect' WEFO penodol arall yn y gweithrediad hwnnw.
- Mae'r dull hwn o ddosbarthu 'prosiectau' yn ymwneud yn benodol â hawliadau am wariant a gweithdrefnau archwilio - nid yw'n ymwneud â'r modd y diffinnir allbynnau a chanlyniadau na'r modd y caiff WEFO ei hysbysu amdanynt pan gefnogir buddiolwr fwy nag unwaith gan weithrediad. Mae canllawiau WEFO ar wahân ar gael at y diben hwn: gweler www.gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/delivering-your-project

Prosiectau sy'n cyfrannu at fwy nag un 'amcan penodol' mewn rhaglen.

Lle mae buddiolwr yn cymryd camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at **fwy nag un 'amcan penodol'** o flaenoriaeth y rhaglen gyfatebol, mae angen rhoi cyfrif ar wahân am y data ariannol a'r allbynnau ar gyfer pob amcan penodol. Fodd bynnag, ystyrir y buddiolwr o hyd fel un sy'n cyflawni prosiect unigol at ddibenion archwilio.

Lle mae'r buddiolwr yn ymgymryd â gweithgareddau ac yn ysgwyddo costau sy'n ymwneud â mwy nag un Amcan Penodol o flaenoriaeth rhaglen, bydd angen i unrhyw gostau a rennir gael eu dyrannu a'u codio i bob amcan penodol ar sail deg, gwrthrychol a chyson. Felly rhaid cytuno â WEFO ar ddull dyrannu costau addas.

Ceir rhagor o wybodaeth am amcanion penodol a blaenoriaethau rhaglen yng nghais WEFO a dogfennau canllawiau arfarnu, gweler www.gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying

Rheolau cymorth gwladwriaethol sy'n galw am wahaniaethu costau a gweithgareddau oddi wrth weithgareddau eraill

Mewn achosion lle mae rheolau Cymorth gwladwriaethol yn gofyn i fuddiolwr wahaniaethu'n glir rhwng gweithgareddau gwahanol, a'u costau, o fewn yr un prosiect gan WEFO, rhaid i'r buddiolwr roi trefniadau ar waith i gydymffurfio â'r rheolau hyn at ddibenion cydymffurfio â Chymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, caiff hyn ei weinyddu a'i archwilio o hyd fel un prosiect o ran modelau cyflawni WEFO. Gall y sefyllfa hon godi, er enghraifft, pan gaiff camau gweithredu neu weithgareddau gwahanol eu cyflawni gan yr un buddiolwr a phan fydd rheolau Cymorth gwladwriaethol gwahanol yn gymwys i bob cam gweithredu.

Cymeradwyo gweithgarwch prosiect

Dylid cofio na all buddiolwr benderfynu'n unochrog ar ba weithgareddau i'w cyflawni neu ar ba gamau gweithredu i'w cymryd - sail penderfyniad cyllido WEFO ydynt ac felly rhaid eu nodi yng Nghynllun Busnes WEFO - neu ddogfennau cyfatebol a gyflwynir i'r Corff Canolraddol os yw'n gymwys - ynghyd â chostau amcangyfrifed y gweithgareddau arfaethedig. Dim ond WEFO, neu'r Corff Canolraddol, all arfarnu, dethol a chymeradwyo prosiectau a'u camau gweithredu/gweithgareddau cydrannol.

Felly pan fydd gan fuddiolwr syniad bras o gam gweithredu neu'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r cam gweithredu, ond nid y manylion llawn - e.e. nid yw'n gwybod pa weithgareddau sy'n ofynnol eto, ble y bydd yn digwydd, sut y bydd yn digwydd, ac felly'r costau amcangyfrifed - yna ni ellir cynnwys hyn yn y gweithgareddau cymeradwy na'r costau ar gyfer y gweithrediad nes bod WEFO yn gallu asesu'r manylion llawn. Byddai cymeradwyo cyllid heb fanylion y gweithgareddau i'w cefnogi, i bob pwrpas, yn gynllun grant.

Mae hyn yn wir oherwydd mai dim ond WEFO, neu Gorff Canolraddol, all ddethol buddiolwyr a chymeradwyo eu gweithgareddau arfaethedig. Hefyd, bydd angen cynnal gwiriadau ac archwiliadau o'r gweithrediad i asesu a yw'r gweithgareddau a gyflawnir gan y buddiolwr yn cydymffurfio â'r hyn y cytunwyd arno ar y dechrau gan WEFO neu'r Corff Canolraddol pan wnaed y penderfyniad cyllido. Nid yw gwariant yn gymwys am gymorth yr UE os yw'n ymwneud â gweithgareddau nas cymeradwywyd gan WEFO neu, os yw'n gymwys, y Corff Canolraddol.

Wrth gwrs, gall gweithrediadau sy'n bodoli eisoes gael eu hailasesu gan WEFO wrth iddynt gael eu rhoi ar waith i ychwanegu camau gweithredu ychwanegol, gweithgareddau, costau neu gyd-fuddiolwyr ychwanegol.

<i>NODYN AR GYFER STAFF WEFO: 'achos ID' System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS) yw'r gweithrediad ac nid prosiectau o fewn gweithrediad.</i>

1.2 Buddiolwyr

Y buddiolwr yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am gychwyn prosiect, neu am gychwyn a rhoi prosiect ar waith². Mewn achosion lle mae gweithrediad yn elwa ar Gymorth gwladwriaethol, y corff sy'n derbyn y cymorth yw'r buddiolwr.

Gall buddiolwyr fod yn unrhyw endid cyfreithiol cyhoeddus neu breifat, ar yr amod bod WEFO, neu Gorff Canolraddol os yw'n gymwys, yn fodlon bod ganddynt y gallu gweinyddol, ariannol a gweithredol i gyflawni'r amodau ynghylch darparu cyllid.

Daw'r ymgeisydd am gyllid yn fuddiolwr pan gymeradwyir y cyllid, a bydd yn llunio cytundeb cyllido cytundebol â WEFO, neu Gorff Canolraddol, sy'n nodi telerau ac amodau'r cymorth cyllidol i'r buddiolwr.

Mae enw a chymeradwyaeth pob buddiolwr mewn gweithrediad yn hollbwysig oherwydd, fel rheol, bwriad y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw ad-dalu costau a ysgwyddwyd ac a dalwyd gan fuddiolwr a dim mwy.

Felly, rhaid i WEFO, neu Gorff Canolraddol **gymeradwyo pob buddiolwr** sy'n bwriadu datgan gwariant cymwys mewn gweithrediad fel bod y manylion yn cael eu cofnodi gan WEFO, bod eu meini prawf cymhwyso yn cael eu gwirio a bod gwaith diwydrwydd dyladwy cysylltiedig yn cael ei gyflawni.

NODYN AR GYFER STAFF WEFO: Rhaid i PPIMS nodi enw, cyfeiriad, statws TAW a manylion cyswllt pob buddiolwr a gymeradwywyd mewn gweithrediad - nid y buddiolwr arweiniol yn unig. Gofyniad rheoleiddiol yw hyn.

Er mwyn penderfynu a yw sefydliad yn gymwys i fod yn fuddiolwr, bydd angen i WEFO ddeall buddiant y sefydliad, yr ymrwymiad ariannol a'r ymgysylltiad arfaethedig yn y gweithrediad neu ei brosiectau. Nid yw sefydliad sy'n ceisio sicrhau mantais fasnachol neu ariannol yn unig drwy ei ymgysylltiad â gweithrediad Cronfeydd Strwythurol yn bodloni nodweddion buddiolwr gwirioneddol cronfeydd yr UE ac felly byddai'n well iddo chwilio am gyfleoedd i ddod yn ddarparwr gwasanaeth neu gontractwr ar delerau masnachol yn dilyn cystadleuaeth agored gan y buddiolwyr.

Er mwyn helpu i benderfynu a yw buddiolwr arfaethedig yn bodloni'r diffiniad uchod, bydd WEFO yn ystyried nodau cyffredinol a diben y sefydliad, h.y. y rheswm pam mae'n bodoli, a'r cyfraniad ariannol arfaethedig i'r gweithrediad, p'un a yw hynny o'i adnoddau ariannol ei hun neu drwy'r gallu i sicrhau arian cyfatebol gan drydydd parti, o ran 'arian parod' neu fel cyfraniadau mewn nwyddau.

1.2.1 Buddiolwyr mewn gweithrediadau cydweithredol (buddiolwyr arweiniol a chyd-fuddiolwyr)

Mae WEFO yn parhau â'r dull gweithredu strategol, llwyddiannus a ddefnyddiwyd yn rhaglenni 2007-2013 drwy gyfeirio cyllid at nifer gymharol fach o weithrediadau ar raddfa fawr neu weithrediadau cydweithredol.

Partneriaethau yw 'gweithrediadau cydweithredol' rhwng o leiaf ddau sefydliad i gyflawni'r nodau a'r amcanion cyffredin a nodir yng Nghynllun Busnes WEFO drwy:

- gyfrannu ar y cyd at y broses o'i reoli a'i gyflawni;
- rhannu risgiau, rhwymedigaethau, allbynnau a chanlyniadau;
- cyfnewid gwybodaeth, arbenigedd ac arfer da er mwyn helpu i gyflawni gweithrediad llwyddiannus **mewn modd gwell nag y gellid ei gyflawni ped ymgymered ag ef fel gweithrediadau ar wahân.**

Bydd y partneriaethau hyn o fuddiolwyr fel arfer yn cydweithredu i ddatblygu, rheoli a chyflawni gweithrediad, gan gyfrannu adnoddau ariannol ac anariannol i ddangos yr ymrwymiad gwirioneddol i nodau'r gweithrediad y tu hwnt i unrhyw gymhelliant hunanol neu fasnachol.

Yr unig beth y mae deddfwriaeth Cronfeydd Strwythurol yn ei ragweld yw awdurdodau rheoli rhaglenni (WEFO) yn cymeradwyo gweithrediadau ac yn rhoi cytundebau grant i un buddiolwr, heblaw mewn cynlluniau Cymorth gwladwriaethol lle mae pob derbynnydd grant yn fuddiolwr.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn fodlon y gall sefydliadau eraill gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod rheoli i ysgwyddo gwariant mewn gweithrediad ar yr un sail â'r buddiolwr³.

Felly, mae WEFO yn llunio cytundeb cyllido gydag un sefydliad: naill ai unig **fuddiolwr** neu **fuddiolwr arweiniol** mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill (**cyd-fuddiolwyr**).

Lle y cymeradwyir cyd-fuddiolwr, mae cytundeb cyllido WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr arweiniol hysbysu'r cyd-fuddiolwyr am y rheolau a'r amodau ar gyfer cymorth yr UE fel y nodir yn y cytundeb cyllido. I gefnogi hyn, rhoddir copi o gytundeb cyllido WEFO i'r cyd-fuddiolwyr ac maent yn llofnodi datganiad, sydd wedi'i atodi i'r cytundeb cyllido, i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r rheolau a'r amodau sy'n gymwys i'r gweithgareddau a'r costau y maent yn bwriadu eu datgan yn eu rôl fel cyd-fuddiolwr.

Fodd bynnag, mae'r buddiolwr arweiniol, sef yr unig endid cyfreithiol sy'n llunio cytundeb cyllido yn ffurfiol â WEFO, yn parhau i fod yn llwyr gyfrifol yn ariannol ac yn gyfreithiol am y gweithrediad ac felly mae ei rôl yn hollbwysig i lwyddiant cyffredinol pob prosiect.

Er mwyn cael ei dderbyn fel cyd-fuddiolwr ar gyfer gweithrediad, rhaid i sefydliad fodloni meini prawf buddiolwr gwirioneddol fel y nodir uchod.

Mewn gweithrediadau cydweithredol, mae'r buddiolwr arweiniol yn:

- Tybio cyfrifoldeb am lwyddiant cyffredinol y gweithrediad.
- Bodloni ei hun bod y gwariant cymwys a gyflwynir iddo gan gyd-fuddiolwyr ond yn ymwneud â rheoli, neu reoli a chyflawni, y gweithgareddau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y buddiolwr arweiniol ac yn unol â chynllun busnes WEFO a'r cytundeb cyllido.
- Sefydlu trefniadau ysgrifenedig gyda chyd-fuddiolwyr i gynnwys, er enghraifft, yr angen i gydymffurfio â'r holl reolau a phrotocolau cymhwysedd cymwys ar gyfer cyfrannu at unrhyw symiau a adenillir gan WEFO o ran gwariant anghymwys (gweler **Atodiad B**).
- Sicrhau bod y buddiolwyr eraill yn cael cyfanswm y cyfraniad cyhoeddus sy'n ddyledus iddynt o gronfeydd yr UE ac, os yw'n gymwys, o arian cyfatebol cyhoeddus cenedlaethol, mewn perthynas â gwariant cymwys y cyd-fuddiolwr, cyn gynted â phosibl ac yn llawn. Ni ddylai unrhyw symiau gael eu didynnu na'u hatal gan y buddiolwr arweiniol ac ni ellir codi unrhyw dâl penodol, na thâl arall ag effaith debyg, a fyddai'n lleihau'r swm hwnnw sy'n ddyledus i'r buddiolwyr eraill.

Gall archwiliadau, gwiriadau ac unrhyw ymchwiliadau cysylltiedig gael eu cynnal ar gyfer unrhyw fuddiolwr mewn gweithrediad - nid y buddiolwr arweiniol yn unig. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol ar gyfer y gweithrediad yn y pen draw - gan gynnwys atebolrwydd yn y lle cyntaf i ad-dalu grant yr UE i WEFO os na fodlonir gofynion cydymffurfio - yn nwylo'r buddiolwr arweiniol yn gytundebol, sef yr endid cyfreithiol sy'n llunio cytundeb cyllido â WEFO.

Felly, **cynghorir** buddiolwyr arweiniol **yn gryf** i roi systemau rhannu risg, llywodraethu a rheoli ar waith i ategu'r trefniadau â chyd-fuddiolwyr, gan gynnwys materion fel cyfraniad at symiau a adenillir gan WEFO am nad yw cyd-fuddiolwyr wedi cydymffurfio ag amodau cyllido.

Y buddiolwyr arweiniol fydd yn penderfynu ar y trefniadau mwyaf addas, er enghraifft, cytundebau ffurfiol, cytundeb lefel gwasanaeth, memorandwm cyd-ddealltwriaeth, cytundeb anffurfiol ac ati. Darperir templed o'r rhestr wirio ar gyfer cytundebau o'r fath yn **Atodiad B**.

Gall WEFO ystyried ychwanegu cyd-fuddiolwyr ychwanegol at weithrediadau sy'n bodoli eisoes yn ystod ei weithrediad os oes rhesymau da pam na allai'r buddiolwr - neu brosiect newydd sy'n cael ei ychwanegu at y gweithrediad - fod wedi cael ei nodi'n rhesymol ar ddechrau'r gweithrediad.

Bydd WEFO yn asesu a oes gan y cyd-fuddiolwr newydd y gallu gweinyddol, ariannol a gweithredol i gyflawni'r amodau ar gyfer derbyn cronfeydd yr UE. Yn

ogystal, mae angen i WEFO asesu goblygiadau Cymorth gwladwriaethol galluogi'r sefydliad newydd i gael cyllid cyhoeddus, cymorth yr UE ac, os yw'n gymwys, arian cyfatebol cyhoeddus cenedlaethol i'w roi i gyd-fuddiolwyr.

O ran cydymffurfio â rheolau Cymorth gwladwriaethol, bydd angen i WEFO ddeall oblygiadau Cymorth gwladwriaethol mewn perthynas â'r holl fuddiolwyr, asiantau cyflawni/darparwyr gwasanaethau, derbynwyr terfynol o gymorth; nid y cymorth a roddir i'r buddiolwr arweiniol yn unig.

Felly, er bod WEFO ond yn cwblhau cytundeb cyllido ac yn anfon arian at fuddiolwyr arweiniol, at ddibenion Cymorth gwladwriaethol y sianel ar gyfer trosglwyddo'r cymorth cyhoeddus i'r cyd-fuddiolwyr yn unig yw'r buddiolwr arweiniol ac nid yw'n rhoi unrhyw fantais ariannol o ran y symiau a delir i'r buddiolwyr partner hynny. Felly, derbynwyr Cymorth gwladwriaethol yw'r holl fuddiolwyr mewn gweithrediad a bydd gwerth y Cymorth gwladwriaethol yn amrywio rhwng buddiolwyr yn unol â swm y cyllid cyhoeddus a dderbynnir i ad-dalu eu priod gostau.

Gweler **Atodiad C** am wybodaeth am y trefniadau rheoli ac archwilio mewn gweithrediadau cydweithredol.

1.2.2 Sefydliadau newydd sy'n gwneud cais i ddod yn fuddiolwr

Efallai y byddai'n well gan grŵp o sefydliadau greu sefydliad newydd, wedi ei reoli ar y cyd i reoli a chyflawni gweithrediad, er enghraifft, gan ddefnyddio cyfrwng pwrpasol arbennig neu endid cyfreithiol tebyg.

Bydd WEFO yn ystyried cynigion o'r fath fesul achos, gan roi ystyriaeth i werth am arian; arbenigedd a chymhwysedd, yn enwedig yn absenoldeb hanes ariannol a sefydliadol; risg o ddibyniaeth gorfforaethol ar gronfeydd yr UE; a chyfyngiadau ar strategaeth ymadael a chynigion etifeddol.

Cyn cymeradwyo unrhyw sefydliad fel buddiolwr (unig, prif, ar y cyd, newydd neu sefydledig), mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i WEFO sicrhau bod gan y buddiolwr y gallu gweinyddol, ariannol a gweithredol i gyflawni'r amodau ynghylch derbyn cyllid yr UE.

Gall WEFO hefyd gynnal profion diwydrwydd dyladwy eraill ar ddarpar fuddiolwyr, er enghraifft, cadarnhau a yw'r sefydliad wedi cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, os yw'n gymwys.

1.2.3 Buddiolwyr cynlluniau grant (pan fyddant yn ddarostyngedig i reolau Cymorth gwladwriaethol)

Mewn gweithrediadau a sefydlwyd fel cynllun grant i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i gwmnïau¹ drwy gydol y broses o roi'r gweithrediad ar waith, y sefydliadau sy'n cael y cymorth - derbynwyr y Cymorth gwladwriaethol - yw buddiolwyr y gweithrediad. Nid y corff dyfarnu grant yw'r buddiolwr. Gweler **2.3.1** am ragor o fanylion.

RHAN 2: TREFNIADAU CYFLAWNI

2.1 Darpariaeth uniongyrchol gan fuddiolwyr

Mae darpariaeth uniongyrchol, a elwir weithiau yn ddarpariaeth 'fewnol', yn golygu bod y buddiolwr yn gweithredu gweithgareddau'r prosiect ei hun, gan ddefnyddio adnoddau'r sefydliad i gyflawni'r gweithgareddau y cytunwyd arnynt. Mae'r buddiolwr yn parhau i fod yn llwyr gyfrifol am reoli a chyflawni'r gweithrediadau. Efallai y bydd angen i'r buddiolwr brynu gwasanaethau, nwyddau a chyflenwadau allanol, gan gynnwys gosod contractau o bosibl mewn perthynas â rhai categorïau o gostau, ond y buddiolwr sy'n parhau i fod yn llwyr gyfrifol am gyflawni'r prosiect.

2.2 Darpariaeth dan gontract/gaffael

Mae darpariaeth dan gontract (a elwir weithiau yn 'rhoi ar gontract allanol' neu 'ddarpariaeth a gaffaelwyd') yn golygu bod buddiolwr yn trefnu i gontractwyr gwaith neu ddarparwyr gwasanaethau ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gyflawni gweithgareddau'r prosiect. Yna mae gan y contractwr rwymedigaethau cytundebol i roi'r gweithgareddau cytûn ar waith a chyflawni'r allbynnau, y cynhyrchion neu'r gwasanaethau cytûn yn gyfnewid am y pris cytûn a nodwyd yn y contract.

Rôl y buddiolwr - mewn perthynas â'r gweithgareddau dan gontract - yw llunio'r contract/cytundeb cyflawni yn bennaf mewn ffordd gydsyniol, ac mewn llawer o achosion bydd hyn yn cynnwys gweithdrefn gaffael gystadleuol, ac yna reoli'r contract drwy gydol y broses gyflawni drwy sicrhau bod y contractwyr yn bodloni'r holl amodau cytundebol cytûn ac y telir anfonebau am berfformiad boddhaol yn unig.

Hyd yn oed pan fydd yr holl weithgareddau yn ddarpariaeth dan gontract, bydd y buddiolwr yn dal i ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig â rheoli a gweinyddu prosiect a ariennir gan yr UE e.e. rheolaeth ariannol, hawliadau i WEFO am ad-dalu costau, gwybodaeth a mesurau cyhoeddusrwydd, monitro data, adrodd, adrodd ar gynnydd, hwyluso archwiliadau a gwiriadau ac ati. Cyfrifoldeb y buddiolwr fydd y tasgau craidd hyn o hyd ac ni ddisgwylir, felly, eu rhoi ar gontract i sefydliadau eraill oni bai am wasanaethau arbenigol megis gwerthuso.

Mae'n hanfodol bod pob contract yn nodi'n glir y rheolau ac amodau perthnasol o ran cyllid yr UE sy'n gymwys i'r gweithgareddau i'w cyflawni gan gontractwr neu ddarparwr gwasanaeth, er enghraifft:

- Trin refeniw prosiect ac incwm arall.
- Rheolau parhad (amodau sy'n gymwys ar ôl cwblhau'r gweithrediad).
- Cofnodion cyfranogwyr ESF, gan gynnwys: tystiolaeth fod pob unigolyn yn bodloni'r amodau mynediad ar gyfer y cymorth; ffurflenni cofrestru; taflenni presenoldeb ac ati.
- Rheolau cymhwysedd daearyddol (os bwriedir i'r contractwr roi cymorth i fusnesau neu unigolion).

- Materion Cymorth gwladwriaethol posibl os yw'r contractwr yn sianelu cymorth tuag at 'dderbynwyr terfynol'.
- Trefniadau cadw cofnodion, gan gynnwys mynediad addas os caiff ei ddewis ar gyfer archwiliad, gwiriad neu ymchwiliad.

Gall darpariaeth dan gontract gynyddu cyllideb prosiect gan y bydd contractau y cytunir arnynt ar delerau masnachol mewn marchnad gystadleuol fel arfer yn cynnwys maint yr elw yn hytrach na sail 'costau yn unig' pan gaiff y gweithgarwch ei gynnal gan fuddiolwr. Fodd bynnag, mae angen gwaith dan gontract ar gyfer y canlynol:

SENARIO A: Mae rheolau Cymorth gwladwriaethol yn atal buddiolwr rhag cael cymorth cyhoeddus i gyflawni'r gweithgareddau cytûn yn uniongyrchol oherwydd tybir bod y cymorth yn Gymorth gwladwriaethol ac nid yw'r buddiolwr yn gallu cael unrhyw Gymorth gwladwriaethol addas (eithriad bloc, cymorth de minimis, cynlluniau hysbysedig neu gymeradwy); neu

SENARIO B: Nid oes gan y buddiolwr yr arbenigedd, y gallu na'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r gweithgareddau'n fewnol ac felly trafodir y defnydd o ddarparwyr dan gontract a chytunir arnynt gyda WEFO.

Er eglurder, gallai cyfeiriadau yn y ddogfen ganllawiau hon at weithgareddau 'dan gontract' neu 'gaffael', yn ymarferol, olygu:

- Gweithdrefn gaffael newydd/contract newydd; neu
- Defnyddio contractau sy'n bodoli eisoes os cawsant eu sefydlu drwy ddefnyddio gweithdrefn gaffael gydsyniol; neu
- Defnyddio Cytundebau Fframwaith sefydledig os cawsant eu sefydlu drwy ddefnyddio gweithdrefn gaffael gydsyniol;

Mae defnyddio contractau sy'n bodoli eisoes neu Gytundebau Fframwaith yn dibynnu ar argaeledd dogfennau gwreiddiol i ddangos eu bod wedi cael eu creu drwy gydymffurfio'n llawn â rheolau'r UE, y rheolau cenedlaethol a rheolau WEFO a oedd yn gymwys ar yr adeg honno.

Cofiwch, mae gwybod 'sut' i osod contractau, gan gynnwys parchu rheolau caffael cymwys yr UE a rhai cenedlaethol, y tu allan i gwmpas y ddogfen ganllawiau hon.

Gweler **Atodiad D** am wybodaeth am y Cymorth gwladwriaethol, arian cyhoeddus ar gyfer 'gweithgarwch economaidd' a'r potensial i ystumio cystadleuaeth.

Yn olaf, nid yw rheolau'r Cronfeydd Strwythurol yn cydnabod contractau a ddyfarnwyd gan fuddiolwr iddo'i hun, gan ddiystyru dilysrwydd cyfreithiol contractau o'r fath. Felly, os yw hyn yn digwydd, ystyrir o hyd bod y buddiolwr yn darparu'n uniongyrchol - ac nid yn darparu drwy gaffael. O ganlyniad, ni fydd costau'n gymwys

ond os ydynt yn cael eu codi a'u talu, mewn gwirionedd, i gcontractwr neu gyflogai, neu mae modd defnyddio'r opsiynau costau symlach.

Darpariaeth dan gcontract yw'r trefniant cyflawni tybiedig i'w ddefnyddio gan ei fod yn cefnogi dosbarthiad cyfiawn a theg o gronfeydd yr UE i'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gwaith a'r gwasanaethau. Ceir rhai eithriadau penodol, gweler **Atodiad D** am ganllawiau penodol ar yr achosion canlynol:

- Senario 1: Darpariaeth uniongyrchol gan fuddiolwyr pan fo'r gweithgarwch yn ddarostyngedig i reolau Cymorth gwladwriaethol
- Senario 2: Buddiolwr yn cystadlu am ddarpariaeth uniongyrchol
- Senario 3: Tybio darpariaeth uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau penodol a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru
- Senario 4: Dyfarniadau contract heb gystadleuaeth (dyfarniad uniongyrchol)

2.3 Cynlluniau grant

Caiff cynlluniau grant eu creu pan fydd yr ymgeisydd am gyllid - y buddiolwr neu Gorff Canolraddol - yn gofyn i WEFO gymeradwyo gweithrediad sy'n eu galluogi i alldalu cyllid i sefydliadau eraill, neu o bosibl i unigolion.

Cyn cymeradwyo cynlluniau o'r fath, bydd angen i WEFO ddeall y rhesymeg ymyrryd sy'n sail i ddull cyflawni o'r fath a deall sut y bydd yn darparu'r cyfraniad sy'n ofynnol at amcanion penodol y rhaglen e.e. sut y bydd alldalu cyllid i eraill yn helpu i gyflawni'r canlyniadau a geisir gan flaenoriaeth y rhaglen honno.

2.3.1 Grantiau sy'n ddarostyngedig i reolau Cymorth gwladwriaethol

Yn y sefyllfa hon, mae'r gweithrediad yn defnyddio cronfeydd dyranedig yr UE i alldalu Cymorth gwladwriaethol i nifer o gwmnïau¹.

Mae'r gweithrediad yn darparu dyfarniadau Cymorth gwladwriaethol unigol lle y darperir y cymorth cyhoeddus o dan gynllun Cymorth gwladwriaethol hysbysedig neu gofrestredig neu lle y'i dyfernir gan ddefnyddio rheolau de minimis².

Er mwyn ailadrodd o Ran 1, mewn achosion lle mae gweithrediad yn elwa ar Gymorth gwladwriaethol, y corff sy'n derbyn y cymorth yw'r buddiolwr. Felly, y buddiolwyr mewn cynlluniau o'r fath yw'r sefydliadau sy'n derbyn y cymorth cyhoeddus² ac nid y sefydliad sy'n rheoli'r gweithrediad ac yn cyflawni rôl gweinydddydd y cynllun.

Mewn perthynas ag alldalu grantiau ESF/ERDF yng Nghymru, y corff sy'n rhoi'r cymorth i fuddiolwyr drwy gydol y broses o roi'r gweithrediad ar waith fydd Corff Canolraddol, wedi'i ddynodi gan WEFO, neu gallai WEFO benderfynu rheoli'r cynllun ei hun os mai bach iawn o benderfyniadau dyfarnu sydd i'w gwneud.

Nid yw'r costau a ysgwyddir gan WEFO neu'r Corff Canolraddol wrth reoli a gweithredu cynlluniau o'r fath yn gymwys i gael ad-daliad o weithrediad y cynllun grant ei hun - oherwydd nid costau y mae buddiolwyr wedi eu hysgwyddo yn y gweithrediad penodol hwnnw ydynt - ond costau y gellir eu hystyried ar gyfer cymorth cyllido drwy weithrediad ar wahân gan ddefnyddio rhaglen 'Cymorth Technegol'. Bydd WEFO yn hysbysu unrhyw Gorff Canolraddol arfaethedig am y trefniadau hyn.

Nodyn pwysig:

Nid yw'r ffaith bod buddiolwyr yn un o weithrediadau WEFO yn cael eu hystyried yn rhai sy'n cael Cymorth gwladwriaethol, gan gynnwys cymorth a gwmpesir gan gynllun Cymorth gwladwriaethol hysbysedig/cymeradwy neu sydd o fewn rheolau cymorth de minimis, yn golygu bod yn rhaid i Gyrrff Canolraddol gael eu penodi.

Dim ond pan na fydd buddiolwyr gweithrediad (derbynwyr y cymorth) yn hysbys ar yr adeg y bydd WEFO yn cymeradwyo'r gweithrediad, y gellir defnyddio Cyrff Canolraddol o bosibl, oherwydd caiff y buddiolwyr/prosiectau eu dethol wrth i'r gweithrediad gael ei roi ar waith.

Hyd yn oed wedyn, gallai WEFO benderfynu gwneud y penderfyniadau asesu a dethol buddiolwyr/prosiectau ei hun yn hytrach na gofyn i Gorff Canolraddol gyflawni'r gwaith ar ei rhan.

O ran rheolau cymhwysedd cyllid, tybir bod y gwariant 'wedi'i ysgwyddo a'i dalu' pan fydd wedi ei wario mewn gwirionedd gan fuddiolwyr y cynllun cymorth: nid pan fydd wedi ei dalu gan reolwr y cynllun i'r buddiolwr. Fodd bynnag, ni all WEFO ddatgan y gwariant i'r CE nes bod yr holl gyfraniadau cyhoeddus sy'n ddyledus i'w talu i'r buddiolwr wedi eu talu mewn gwirionedd. O ran y rheol hon, mae cyfraniad cyhoeddus yn golygu grant yr UE ac, os yw'n gymwys, arian cyfatebol cyhoeddus sy'n ddyledus i'r buddiolwr gan awdurdodau cyhoeddus cenedlaethol, rhanbarthol neu leol. Nid yw'r rheol hon yn effeithio ar gyfraniadau arian cyfatebol y buddiolwr ei hun i brosiectau, os yw hynny'n gymwys.

Mwy am 'gynlluniau cymorth'

Ni fwriedir i'r ddogfen ganllawiau hon roi canllawiau ar Gymorth gwladwriaethol ond gall y pwyntiau isod helpu i egluro'r cyfeiriadau at 'gynllun cymorth'

- Gallai cynlluniau cymorth ymwneud â chynllun sy'n defnyddio'r darpariaethau yn y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (GBER), cynllun de minimis, neu gynllun unigol a gymeradwywyd yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE).
- Ar ôl eu sefydlu, neilltuir rhif cyfeirnod unigryw i gynlluniau Cymorth gwladwriaethol.

- Mae Uned Cymorth gwladwriaethol Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr o gynlluniau GBER sy'n gymwys yng Nghymru, gweler www.gov.wales/topics/businessandeconomy/stateaid/schemes.
- Pan hysbysir y CE am gynlluniau i'w cymeradwyo - neu pan gânt eu cyflwyno i'r CE lle nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw - rhaid hysbysu'r CE a gaiff y cynllun ei gyd-ariannu gan gronfeydd yr UE ac os felly, symiau'r cyllid o bob cronfa UE benodol.
- Mae'r CE yn cyfeirio at y corff a fydd yn dyfarnu cymorth i fuddiolwyr fel yr 'Awdurdod sy'n Rhoi' neu 'awdurdod dyfarnu cymorth' (ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, mae ond yn golygu WEFO neu Gorff Canolraddol).

2.3.2 Cynlluniau grantiau y tu allan i gwmpas rheolau Cymorth gwladwriaethol

Mewn rhai achosion, gall WEFO ganiatáu i fuddiolwyr roi grantiau/cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau eraill, neu unigolion, cyhyd â bod cymorth o'r fath y tu allan i gwmpas rheolau Cymorth gwladwriaethol. Er enghraifft, talu bwrsariaethau neu lwfansau i bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Yn yr achosion hyn, y buddiolwr - nid Corff Canolraddol na WEFO – sy'n rheoli'r cynllun cyllido a dyfarnu'r cymorth ariannol i'r derbynwyr terfynol. Rhaid i'r cynllun gael diben penodol amlwg, sy'n gyson â thargedau allbwn/canlyniadau cytûn y gweithrediad. Cyn cymeradwyo cynlluniau o'r fath, bydd angen i WEFO ddeall y rhesymeg ymyrryd sy'n sail i ddull cyflawni o'r fath a deall sut y bydd yn helpu i gyflawni nodau'r gweithrediad e.e. sut y bydd alldalu cyllid i eraill yn helpu i gyflawni'r canlyniadau a geisir gan flaenoriaeth y rhaglen honno.

Ni ellir defnyddio'r math hwn o gynllun grant i benodi partneriaid i helpu'r buddiolwr i reoli neu gyflawni'r gweithrediad. Rhaid i bartneriaid rheoli a chyflawni fod yn gyd-fuddiolwr, a gymeradwywyd gan WEFO, neu gontractwr/darparwr gwasanaeth a gaffaelwyd gan y buddiolwr.

Felly mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng:

- Sefydliadau/pobl sy'n cael eu cefnogi gan weithrediad = mae cynlluniau grant yn bosibl.
- Sefydliadau/pobl sy'n rheoli neu'n cyflawni gweithrediad = buddiolwyr (i'w cymeradwyo gan WEFO).

Rhaid i WEFO fodloni ei hun mai cynllun grant yw'r ffordd gwerth am arian orau i'r gweithrediad gyflawni ei amcanion cytûn, gan ystyried y costau gweinyddol a rheoli cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal cynllun grant.

Yn y cynlluniau grant hyn, nid yw'r cymorth ariannol y mae'r buddiolwr yn ei ddarparu i dderbynwyr grantiau yn ddarostyngedig i'r rheolau ar Gymorth gwladwriaethol h.y. nid yw'n ymwneud â gweithgareddau 'economaidd' nac yn cynnwys cymorth i

unigolion (nid 'ymgymeriadau' Cymorth gwladwriaethol) megis lwfansau, bwrsariâu neu gyflogau ESF a delir i gyfranogwyr.

Mae'r rheolau canlynol yn gymwys:

- Rhaid i Gynllun Busnes WEFO ddisgrifio sut y darperir grantiau at ddiben penodol, sy'n gyson â thargedau, dangosyddion ac allbynnau'r gweithrediad ac felly sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion blaenoriaeth y rhaglen.
- Rhaid i **WEFO gytuno** ar y meini prawf cymhwysedd, asesu a dethol ar gyfer dyfarnu cymorth ariannol. Bydd archwiliadau a gwiriadau yn archwilio p'un a yw'r meini prawf y mae WEFO wedi cytuno arnynt wedi eu rhoi ar waith wedyn. Nid oes unrhyw ofyniad i WEFO asesu na chymeradwyo dyfarniadau cyllido unigol - y sefydliad sy'n dyfarnu'r grant (buddiolwr arweiniol neu gyd-fuddiolwr) sy'n cyflawni'r dasg hon.
- Mae'r sefydliadau neu'r unigolion sy'n cael cymorth ariannol o gynllun cymorth y buddiolwr yn dderbynwyr grantiau ond nid ydynt yn 'fuddiolwyr'.
- Mae'r sefydliad sy'n dyfarnu'r grant (buddiolwr arweiniol neu gyd-fuddiolwr) yn gyfrifol am gymhwysedd y gwariant a'r trywydd archwilio a chadw cofnodion cysylltiedig - nid derbynnydd y grant. Yn yr un modd, cynhelir archwiliadau a gwiriadau ar lefel y buddiolwr ac nid ar lefel derbynnydd y grant.
- Rhaid i'r sefydliad sy'n dyfarnu'r grant (buddiolwr arweiniol neu gyd-fuddiolwr) ddefnyddio llythyrau dyfarnu grant i nodi'r telerau ac amodau i dderbynwyr, megis gwybodaeth a mesurau cyhoeddusrwydd a'r amgylchiadau lle y bydd angen ad-dalu cyllid efallai i'r buddiolwr, er enghraifft, os bydd unigolyn yn cael bwrsari/lwfans ond nad yw'n cwblhau'r amod cyllido cysylltiedig (i gwblhau'r cwrs, ennill y cymhwyster, mynd i'r cyfweiliad ac ati).

Rhaid i Gynllun Busnes WEFO hefyd, neu ddogfennau tebyg, ddisgrifio'r trefniadau rheoli a gweinyddu grantiau arfaethedig, gan gynnwys:

- Sut y caiff galwadau am grantiau eu gwneud - system 'galwad agored' barhaol (ar sail y cyntaf i'r felin nes y daw'r cyllid i ben) neu alwadau dros dro, cyfyngedig o ran amser (dyfarniadau cystadleuol)?
- Sut y caiff galwadau eu hysbysebu?
- Sut y caiff ceisiadau am grantiau eu harfarnu (meini prawf cymwys, amodau cymhwysedd ac, os yw'n gystadleuaeth, y meini prawf dyfarnu)?
 - Noder bod WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i feini prawf cymhwysedd cynllun grant, o leiaf, fod yn anwahaniaethol, yn dryloyw, yn deg ac yn wrthrychol.
 - Felly, rhaid i WEFO archwilio a chymeradwyo'r meini prawf asesu a dyfarnu arfaethedig cyn i'r penderfyniadau cyllido cyntaf gael eu gwneud.
 - Rhaid i unrhyw newidiadau i'r meini prawf gael eu cyflwyno yn yr un modd i WEFO am gymeradwyaeth cyn eu defnyddio.

- Sut y caiff y grantiau eu rhoi dan contract/dogfennu/ysgrifennu o ran telerau ac amodau?
- Ble y caiff dogfennau ategol a thrywydd archwilio ar gyfer gwariant gan dderbynwyr grantiau eu cadw (os mai hyn yw sail y dyfarniad grant). Sut y caiff pob parti ei hysbysu am y cyfnodau cadw cofnodion a dogfennau, ynghyd â'r gallu i gael gafael ar gofnodion a staff mewn perthynas ag archwiliadau, gwiriadau ac ymchwiliadau cysylltiedig?
- Pa gyfradd ymyrryd o ran grantiau a ddefnyddir, os nad 100% a phwy fydd yn darparu'r cyfraniad arian cyfatebol ar gyfer y bwlch cyllido?
- Sut, a phryd, y caiff y cyllid ei dalu i dderbynwyr grantiau, yn enwedig, wrth gyfeirio at pryd y caiff cronfeydd yr UE eu talu gan WEFO?
- Sut, a phryd y bydd y gwariant cymwys am grantiau yn cael ei ddatgan i WEFO i dalu grant yr UE?
- Pa reolaethau a phroffion a gynhelir ar sut y defnyddir cyllid grantiau a'r costau cymwys a fydd yn arwain at dalu'r grant?

Felly bydd angen i'r buddiolwr hysbysu WEFO a fydd y grantiau yn un o'r canlynol:

Dyfarniadau uniongyrchol (heb fod yn gystadleuol)

- Cyllid i'w ddyfarnu i bob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf cymwys ac amodau cymhwysedd.
- Cyfleoedd cyllido i'w hysbysebu yn eang/mynediad cyfartal i bob darpar ymgeisydd.
- Dyfarniadau cyllido a wneir ar sail y cyntaf i'r felin - h.y. dyfernir cyllid i bob ymgeisydd cymwys nes bod y cynllun grant wedi defnyddio'r cyllid i gyd.
- Buddiolwr yn darparu 'telerau ac amodau'r grant' yn ysgrifenedig i dderbynnydd y grant.

neu,

Dyfarniadau cystadleuol

- Buddiolwr yn dyfarnu grant i'r ymgeisydd 'gorau' o blith cynigion cystadlu yn unol â meini prawf dethol ac asesu cytûn.
- Rhaid i gyfleoedd cyllido gael eu hysbysebu yn eang/mynediad cyfartal i ddarpar ymgeiswyr.
- Gall fod yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau y dosberthir y cyllid yn dryloyw ac yn gyfartal.
- Yn addas lle mae mwyr nag un darpar ymgeisydd am grant yn gymwys i gael cyllid cyfyngedig.
- Buddiolwr yn darparu telerau ac amodau ysgrifenedig i'r cynigydd llwyddiannus (derbynnydd y grant).

O ran rheolau cymhwysedd, tybir bod y gwariant 'wedi'i ysgwyddo a'i dalu' pan fydd wedi ei wario mewn gwirionedd gan fuddiolwyr y cynllun cymorth. Rhaid i reolau'r cynllun grant ddisgrifio sail taliadau o'r fath. Noder - os oes rhaid i'r ymgeisydd am gyllid ddangos ei fod wedi ysgwyddo a thalu rhai costau cymwys er mwyn i'r grant gael ei dalu, rhaid i'r buddiolwr - nid derbynnydd y grant - gadw'r dogfennau hyn ar gyfer archwiliadau a gwiriadau yn y dyfodol.

Er eglurder, nid ystyrir sefydliadau nac unigolion sy'n derbyn grant yn 'brosiectau' at ddibenion archwilio - rhoddir prosiectau ar waith gan fuddiolwyr ac nid buddiolwyr yw derbynwyr grantiau.

2.4 Cyfuno dulliau cyflawni

Mae'n bosibl y bydd gan rai gweithrediadau, yn enwedig gweithrediadau 'aml-brosiect', cydweithredol a mwy o faint, gyfuniadau o ddulliau cyflawni e.e. bydd rhai gweithgareddau neu brosiectau yn 'ddarpariaeth uniongyrchol', gan gynnwys rhai cyflenwyr a gwasanaethau dan gontract, a bydd gweithgareddau neu brosiectau eraill yn 'ddarpariaeth dan gontract' yn llwyr.

Wrth wneud penderfyniadau am b'un a yw darpariaeth dan gontract yn ofyniad, mae'n ymarferol disgwyl y gallai gweithrediad gynnwys elfennau o weithgarwch economaidd ac aneconomaidd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd WEFO yn nodi amodau lle y caiff cyllid ar gyfer cyflawni gweithgareddau aneconomaidd ei glustnodi ar gyfer darpariaeth uniongyrchol a lle y bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau 'economaidd' yn ddarostyngedig i ddarpariaeth dan gontract.

Ni ddylai gweithrediadau sy'n rhoi **grantiau Cymorth gwladwriaethol** i fuddiolwyr (gweler cynlluniau grant 'math 1' uchod) **gael eu cymysgu ag unrhyw weithgarwch/llinellau cyllideb eraill** oherwydd y cymhlethdodau sy'n codi wrth gyfrifo am waith a chostau'r Corff Canolraddol. Gall unrhyw weithgareddau eraill, hyd yn oed os oes cysylltiad agos rhyngddynt â'r cynllun cymorth, gael eu hystyried ar gyfer cymorth ond fel gweithrediad ar wahân. Gall WEFO ganiatáu gweithrediadau 'cymysg' ar sail eithriadol â chyfiawnhad priodol.

RHAN 3: CRYNODEB

3.1 Crynodeb

Mae'r modelau cyflawni yn cynnig ystod hyblyg o ddulliau cyflawni sydd â'r nod o gyflawni gwerth am arian ac sy'n osgoi unrhyw wrthdaro posibl â Chronfeydd Strwythurol yr UE, Cymorth gwladwriaethol a deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus.

Bydd WEFO yn adolygu'r modelau o bryd i'w gilydd a bydd unrhyw newidiadau yn gymwys ar gyfer gweithrediadau newydd a gymeradwywyd yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig.

Yn olaf, nodwch fod deddfwriaeth Cronfeydd Strwythurol yr UE yn darparu'r sail gyfreithiol i gyflwyno mathau eraill o ddulliau cyflawni ar gyfer grantiau ond ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd yng Nghymru, er enghraifft: Cyrff Canolraddol a awdurdodwyd i gymeradwyo gweithrediadau (trefniadau grant cyffredinol neu 'global grant' fel y'u gelwir yn Saesneg); partneriaethau cyhoeddus-preifat; cymorth ad-daladwy; buddsoddiadau tirïogaethol integredig; Cynlluniau Gweithredu ar y Cyd; a gwaith dan gontract uniongyrchol gan WEFO. Fodd bynnag, yr unig ddulliau a ddefnyddir gan WEFO yw'r rhai a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

3.2 Ôl-nodion

¹Defnyddir y term 'cwmnïau' er symlrwydd gan nad yw'r canllawiau hyn yn nodyn cyfarwyddyd Cymorth gwladwriaethol. Yn fwy cywir, mae hyn yn golygu cymorth i ymgymeriad sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd, waeth beth fo'i statws cyfreithiol na'r modd y caiff ei ariannu. Felly, gallai sefydliadau yn y sector cyhoeddus/trydydd sector hefyd fodloni'r diffiniad hwn os ydynt yn ymwneud â gweithgarwch economaidd. Felly mae sefydliadau dielw neu sy'n gwneud colled hefyd yn 'ymgymeriadau' os ydynt yn cynnig nwyddau neu wasanaethau ar y farchnad.

²Mae Rheoliad 1303/2013 (erthygl 2) yr UE yn esbonio, mewn perthynas â chymorth grant gan y Cronfeydd Strwythurol, mai'r buddiolwr yw'r corff sy'n gyfrifol am gychwyn - neu gychwyn a gweithredu - y gweithrediad. Mae'r rheoliad hefyd yn egluro, yng nghyd-destun cynlluniau Cymorth gwladwriaethol, yr ystyrir mai'r buddiolwr yw'r corff sy'n cael y cymorth (nid y corff sy'n rhoi'r cymorth). Eglurir hefyd, at ddibenion y Rheoliad, fod y cyfeiriad at gynllun 'Cymorth gwladwriaethol' hefyd yn cynnwys cymorth de minimis.

³Gweler, er enghraifft, ddatganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn nogfen y Cyngor 5609/13 ADD5 REV 1, 25 Chwefror 2013:

'... it is fully admissible that an operation may be implemented in an institutional structure consisting of a beneficiary and several entities (partners) authorised to incur eligible expenditure, among which the division of tasks related to initiation and implementation of the operation occurs. In such a situation, expenditure which has been incurred and paid by the partners may be considered as incurred and by a beneficiary...'

⁴ Cyfathrebiad gan y Comisiwn, Hysbysiad Drafft y Comisiwn ar y syniad o Gymorth gwladwriaethol yn unol ag Erthygl 107(1) TFEU, 17 Ionawr 2014
www.europa.eu/rapid/press-release

RHAN 4: ATODIADAU

ATODIAD A

Terminoleg: enghraifft weithredol (*enghreifftiol yn unig - nid yn benodol i Gymru*)

TERMINOLEG	ENGHRAIFFT
Amcan penodol	Gwella hygyrchedd rhanbarth mewn modd cynaliadwy
Gweithrediad	Dau 'brosiect' (buddiolwr arweiniol ac un cyd-fuddiolwr)
Prosiectau / Camau gweithredu <i>Beth gaiff ei wneud (‘BETH’/ ‘PAM’/ ‘BLE’)</i>	<u>Cam gweithredu 1.</u> Buddsoddi mewn system reilffordd i symud traffig o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd. <u>Cam gweithredu 2.</u> Gwella ffyrdd cyhoeddus.
Gweithgareddau <i>Sut y caiff y camau gweithredu eu cyflawni (‘SUT’ ‘PWY’ ‘PRYD’)</i>	Ystyriwch <u>FODELAU CYFLAWNI</u> yma <u>Cam gweithredu 1</u> – buddiolwr arweiniol (prosiect 1). Dau weithgarwch prosiect: Gweithgarwch X (darpariaeth uniongyrchol yn fewnol) ○ Gweithgarwch Y (contract a gaffaelwyd) <u>Cam gweithredu 2</u> – cyd-fuddiolwr (prosiect 2): ➤ Un gweithgarwch. Gweithgarwch Z (contract a gaffaelwyd).
Costau cymwys <i>Cost ariannol gweithredu'r gweithgareddau cytûn</i>	E.e. Anfonebau i dalu contractwr am waith a gyflawnir yn foddhaol.

Cynhyrchion a gwasanaethau. <i>Tystiolaeth ddiriaethol ac anniriaethol o gamau gweithredu</i>	Adeiladu ffordd.
Dangosydd allbwn/targed <i>Cynhyrchion uniongyrchol y gweithrediad a fydd, yn eu tro, yn cyfrannu at ganlyniadau. Arwyddion o gynnydd tuag at ganlyniadau. Meintiol: unedau ffisegol neu ariannol.</i>	Km o'r ffordd a adeiladwyd / e.e. 10km o'r ffordd wedi'u hadeiladu.
Dangosydd canlyniadau Amcanion Penodol <i>Arwyddion o ba un a yw'r amcan penodol wedi ei gyflawni ai peidio.</i>	E.e. Llai o amser teithio, sy'n golygu gwelliant o ran hygyrchedd y rhanbarth.

ATODIAD B

Gweithrediadau cydweithredol: cytundeb partneriaeth a rhestr wirio enghreifftiol

Er bod y buddiolwr arweiniol yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir y gweithrediad cyfan ar waith yn llwyddiannus, mae buddiolwyr cymeradwy eraill hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff eu rhan hwy o'r gweithrediad ei rhoi ar waith mewn ffordd llwyddiannus a chydysniol.

Felly mae'n ofynnol i gyd-fuddiolwyr roi cefnogaeth lawn i'r buddiolwr arweiniol er mwyn sicrhau y caiff y gweithrediad cyffredinol ei roi ar waith yn llwyddiannus, ac i sicrhau ei fod o ansawdd uchel ac yn cyflawni ei amcanion.

Mae cytundeb partneriaeth ysgrifenedig yn darparu fframwaith ar gyfer rhoi'r prosiect hwn a'r trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithlon, er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth y gweithrediad â rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol.

Mewn gweithrediadau cydweithredol, mae trefniadau rheoli a chyflawni yn eu hanfod yn llawer mwy cymhleth nag y maent mewn gweithrediadau sydd ag un buddiolwr yn unig. Am y rheswm hwn, gellir dadlau bod y risgiau cysylltiedig yn llawer mwy. Dylai'r defnydd o gytundeb partneriaeth ysgrifenedig helpu i leihau'r risgiau hyn:

- Drwy ddiffinio'n glir a chodi ymwybyddiaeth am gyfrifoldebau cydfuddiannol a gweithdrefnau ar gyfer pob buddiolwr partner ac o fewn y gweithrediad yn gyffredinol. Dylai cytundeb partneriaeth ei gwneud yn haws i roi gweithrediadau a'u prosiectau ar waith. Mae'r cytundeb yn nodi egwyddorion pwysig sy'n sicrhau rheolaeth ariannol gadarn dros gyllideb y gweithrediad, gan gynnwys trefniadau i adennill unrhyw symiau a dalwyd yn ddiangen;
- Mae bodolaeth cytundeb partneriaeth yn golygu, os bydd problemau'n codi, y gellir defnyddio gweithdrefnau sefydledig i'w datrys. Er, yn ymarferol, gall y rhan fwyaf o broblemau gael eu datrys mewn ffyrdd mwy anffurfiol megis drwy gyfathrebu'n gyson a chynnal cyfarfodydd yn rheolaidd;
- Yn fwy cyffredinol, mae'r defnydd o gytundebau partneriaeth yn fesur doeth sy'n darparu ffordd o leihau'r mathau amrywiol o risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal gweithrediadau cydweithredol.

Arfer Da

Mae'r Buddiolwr yn cynnig cytundeb partneriaeth cydweithredol i bob buddiolwr partner, naill ai ar ffurf cytundeb ysgrifenedig dwyochrog neu amlochrog, neu fel hysbysiad unochrog gyda chyfnod derbyn ar gyfer y buddiolwr partner.

O ran amseru, argymhellir y dylid nodi cyflwyniad yr adroddiad cyntaf ar gynnydd neu hawliad partner i wariant, p'un bynnag a ddaw gyntaf, fel y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r cytundeb ysgrifenedig rhwng y partneriaid.

Darperir rhestr wirio ar gyfer cytundebau partneriaeth isod, y gellir ei haddasu wedyn yn ôl cynnwys ac anghenion penodol y gweithrediad.

Mae lefel y manylion sydd ei hangen ar gyfer cynnwys cytundeb partneriaeth yn amrywio. Bydd Cynllun Busnes WEFO, Proffil Cyflawni a Chytundeb Cyllido fel arfer yn cwmpasu llawer o'r materion a allai gael eu cynnwys fel arfer mewn cytundeb partneriaeth. Yn hytrach na dyblygu'r cynnwys, gall y dogfennau ychwanegol hyn gael eu hatodi i'r cytundeb partneriaeth gwirioneddol a gellir cyfeirio atynt yn nhestun y cytundeb.

Cofiwch, fel yr esboniwyd yng Nghytundeb Cyllido WEFO, gall y buddiolwr arweiniol ddewis rhoi mwy o drefniadau cyfreithiol ffurfiol ar waith gyda'i gyd-fuddiolwyr. Y buddiolwr arweiniol fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio'r cytundeb partneriaeth a awgrymwyd yn y ddogfen hon neu ddull amgen megis cytundeb lefel gwasanaeth, contractau ffurfiol, protocolau ac ati.

Rhestr wirio o faterion i'w cynnwys mewn Cytundeb Partneriaeth (neu ddogfen debyg)

1. Partïon mewn cytundeb, h.y. y buddiolwr a'r buddiolwr/buddiolwyr partner;
2. Pwnc/nod, hyd, a natur y cytundeb h.y. partneriaid fel buddiolwyr cymeradwy grant yr UE, yn ogystal â chynnwys prosiect y partner (amcanion, canlyniadau i'w cyflawni, cyfnod cymhwysedd), cyfeiriad at Gytundeb Cyllido WEFO (dylid rhoi copi o'r Cytundeb Cyllido i fuddiolwyr partner).
3. Y dyraniadau cyllidebol, yn seiliedig ar Gytundeb Cyllido WEFO a threfniadau ar gyfer unrhyw 'gostau a rennir' cyffredin;
4. Gweithdrefnau a therfynau amser ar gyfer taliadau i fuddiolwyr partner gan y buddiolwr arweiniol, cyfrifon i'w defnyddio, cyfradd gyfnewid (os yw'n gymwys), y modd y caiff refeniw a gynhyrchwyd ei drin, rheolau dadneilltuo neu gynllun gwario ar gyfer buddiolwyr partner, yn seiliedig ar Gytundeb Cyllido/Proffil Cyflawni WEFO;
5. Egwyddorion partneriaeth, rhwymedigaethau cydfuddiannol a chyfrifoldeb i fuddiolwyr partner (e.e. gwybodaeth amserol, adrodd ac ati), yn ogystal â'u

- hawliau (e.e. i fuddiolwyr partner gael taliad yn llawn, i'r buddiolwr arweiniol beidio â derbyn datganiadau gwariant mewn amgylchiadau penodol);
6. Gweithdrefnau gwneud penderfyniadau (e.e. grŵp llywio/rheoli os o gwbl) a threfniadau llywodraethu a rheoli cyffredinol ar gyfer y gweithrediad (buddiolwr arweiniol a thasgau buddiolwyr partner);
 7. Rhwymedigaethau a gweithdrefnau adrodd ar gyfer buddiolwyr partner, gan gynnwys terfynau amser adrodd ar gyflwyno adroddiadau ar ddangosyddion allbynnau fel y rhagwelir yn y Cynllun Busnes, targedau i'w cyrraedd (e.e. cerrig milltir) a chanlyniadau os na chânt eu cyrraedd;
 8. Amodau ar gyfer newidiadau i brosiectau, ar gyfer newidiadau i gyllidebau a throsglwyddiadau, gwiriadau i weithgareddau cymeradwy, hawliau a gweithdrefnau i derfynu'r cytundeb partneriaeth, e.e. tynnu buddiolwyr partner yn ôl o'r gweithrediad;
 9. Rhwymedigaeth i gydymffurfio â'r rheolau a'r amodau cymhwysedd cymwys ar lefelau'r UE, rhaglenni ac yn genedlaethol, gan gynnwys unrhyw opsiynau costau wedi'u symleiddio;
 10. Rheolau cymhwysedd allweddol o berthnasedd penodol neu risg uchel, er enghraifft, rheolau Caffael; rheolau Cymorth gwladwriaethol (e.e. de-minimis), rheolau TAW (e.e. esemptiadau).
 11. Rhwymedigaethau a hawliau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, trefniadau perchenogaeth asedau, hawliau eiddo deallusol yn ogystal â rheolau 'parhad' yr UE;
 12. Darpariaethau ar y trywydd archwilio gofynnol, megis terfynau amser ar gyfer cadw dogfennau ategol ar ôl i'r prosiect gau;
 13. Manylion y rheolaethau mewnol y mae angen i fuddiolwyr partner eu rhoi ar waith ar eu weithgareddau a'u gwariant. Manylion y profion i'w cynnal gan y buddiolwr arweiniol, gan nodi hawliau a rhwymedigaethau'r buddiolwr arweiniol, buddiolwyr partner, WEFO, awdurdod archwilio a sefydliadau'r UE;
 14. Gofynion o ran archwilio a gwirio prosiectau, gan gynnwys terfynau amser ar gyfer sicrhau bod dogfennau ar gael i archwilyr a staff gwirio fel y gallant gwblhau eu gwaith ar amser;
 15. Atebolrwydd ariannol: canlyniadau/cosbau pan fethir â chyflawni neu pan fydd afreoleidd-dra, rhwymedigaethau a gweithdrefnau adennill, h.y. gweithdrefnau ar gyfer codi ac adennill symiau a dalwyd yn ddiangen, terfynau amser ar gyfer ad-dalu cyllid. Atebolrwydd ar gyfer unrhyw gywiriadau cyfradd safonol a gymhwysir at y gweithrediad oherwydd gwallau systemataidd, na ellir eu holrhain i fuddiolwr partner unigol, neu drefniadau os caiff taliadau eu hatal. Atebolrwydd i drydydd partion;
 16. Trefniadau cau prosiect, yn enwedig ariannu gweithgareddau adrodd ar ôl y cyfnod cymhwysedd;
 17. Rheolau ar gyfer diwygiadau i'r cytundebau partneriaeth.

CYDNABYDDIAETH: Mae'r cytundeb hwn yn seiliedig ar y 'Cytundeb Partneriaeth Prosiect' a gyhoeddwyd gan www.interact-eu.net sy'n nodi arfer da mewn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Cydweithredol lle mae partneriaethau buddiolwyr, gan gynnwys y cysyniad o fuddiolwr arweiniol a chyd-fuddiolwr, yn ofyniad craidd. Fodd bynnag, gwnaed newidiadau sylweddol er mwyn ei addasu ar gyfer rhaglenni rhanbarthol WEFO.

ATODIAD C

Gweithrediadau cydweithredol: rheolaethau, archwiliadau a gwiriadau

Mae gan bob buddiolwr gyfrifoldeb lefel gyntaf ar gyfer sicrhau bod ei weithgareddau a'r gwariant a gofnodir ganddo fel gwariant cymwys, yn gyfreithlon, yn rheolaidd ac yn cydymffurfio â phob deddf gymwys yn yr Undeb Ewropeaidd, y DU a Chymru. Mae copi o Gytundeb Cyllido WEFO a ddarperir gan y buddiolwr arweiniol yn egluro'r rheolau a'r amodau cymwys.

- Felly, y buddiolwr ar y cyd sy'n gyfrifol am y gwariant y mae'n ei ddatgan i'r buddiolwr arweiniol.
- Felly mae'r buddiolwr arweiniol yn gyfrifol am wariant ei brosiect ei hun a ddatgenir i WEFO yn ogystal â phrofion goruchwylol ar wariant a ddatgenir gan gyd-fuddiolwyr.

I gefnogi'r cyfrifoldeb lefel gyntaf hwn a rhoi'r sicrwydd gofynnol, rhaid i bob buddiolwr sicrhau bod ei weithdrefnau rheoli ar waith, er mwyn atal a chanfod datganiadau anghywir am hawliadau o bosibl i'r buddiolwr arweiniol, sy'n gymesur â maint y sefydliad a natur y prosiect penodol.

Lle bo angen, gall y buddiolwr arweiniol helpu'r cyd-fuddiolwyr i lunio a gweithredu systemau rheoli effeithiol ar eu gweithgarwch a'u gwariant. Fodd bynnag, diben y rheolaethau mewnol yw atal a chanfod gwallau cyn i'r cyd-fuddiolwr ddatgan y gwariant i'r buddiolwr arweiniol - yn hytrach na bod y buddiolwr arweiniol yn cynnal profion ar hawliadau a dderbyniwyd gan y cyd-fuddiolwyr er mwyn canfod gwallau. Felly, pan fydd angen i'r buddiolwr arweiniol gefnogi cyd-fuddiolwyr, rhaid i'r ffocws fod ar atgyfnerthu gwybodaeth ac arbenigedd staff a helpu i lunio rheolaethau ataliol megis hyfforddiant a chymorth, adolygiadau ail berson, cymeradwyaethau, awdurdodiadau a phrofion enghreifftiol gan staff y cyd-fuddiolwr ei hun.

Ni ddylid cymysgu'r profion hyn ar reolaeth fewnol â'r 'gwiriadau' neu'r 'archwiliadau' y cyfeirir atynt yn Rheoliadau'r UE. Swyddogaeth yw gwiriadau a neilltuir yn benodol i WEFO - naill ai drwy ei staff ei hun neu drwy ddefnyddio contractwyr - neu a ddirprwyir gan WEFO i Gorff Canolraddol.

Bydd WEFO yn gwirio'r gwariant a'r allbynnau a adroddir gan gyd-fuddiolwyr ac nid oes angen buddiolwyr arweiniol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Yn yr un modd, dim ond yr Awdurdod Archwilio penodedig (Llywodraeth Cymru, y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd), y Comisiwn Ewropeaidd neu Llys Archwilwyr Ewrop sy'n cynnal 'archwiliadau'.

Felly, o fewn ystyr Rheoliadau'r UE, nid yw 'gwiriadau' nac 'archwiliadau' yn dasgau a gyflawnir byth gan fuddiolwyr.

Mae costau llunio a gweithredu gweithdrefnau rheoli, gan gynnwys achosion lle mae'r buddiolwr arweiniol yn helpu buddiolwr arall fel y nodwyd uchod, yn gostau prosiect cymwys (gan y tybir eu bod yn waith rheoli a gweinyddu prosiect hanfodol) yn ddarostyngedig i amodau cymhwysedd safonol megis prawf dogfennol a thrywydd archwilio digonol, gwerth am arian ac nad ydynt yn ormodol nac yn ddiangen.

Rhaid i'r buddiolwr arweiniol gyflawni profion cywirdeb a chyflawnrwydd ar wariant a ddatgenir gan fuddiolwyr eraill. Mae hyn yn golygu:

- Cadarnhau cywirdeb mathemategol, cytuno bod y cyfansymiau a ddatganwyd yn cyd-fynd ag atodlenni sylfaenol a rhestrau o daliadau a derbyniadau.
- Cadarnhau bod y cyd-fuddiolwr yn defnyddio cod cyfrifo ar wahân, neu system gyfrifo ar wahân, ar gyfer cofnodi'r holl drafodion sy'n gysylltiedig â'i brosiect(au).
- Cadarnhau nad yw'r cyd-fuddiolwr wedi mynd y tu hwnt i'r dyraniadau cyllidebol cytûn.
- Cynnal prawf rhesymoldeb ar atodlenni a rhestrau taliadau a derbyniadau'r symiau a ddatganwyd, er mwyn edrych am eitemau anarferol, annisgwyl neu anghywir o bosibl. Os bydd angen, gall y buddiolwr arweiniol wedyn gysylltu â'r cyd-fuddiolwr i ddatrys unrhyw ymholiad, a newid yr hawliad os bydd angen, cyn i'r manylion gael eu datgan i WEFO ar gyfer ei phrofion taliadau a gwiriadau.
- Rhaid ymchwilio i bob anghysondeb a'i ddatrys cyn datgan y gwariant i WEFO.
- Yn dibynnu ar y pwyntiau uchod, nid oes gofyniad pellach i'r buddiolwr arweiniol arolygu dogfennau ategol yn rheolaidd ar gyfer y costau a'r allbynnau a ddatganwyd gan bob un o'r cyd-fuddiolwyr.

Rôl WEFO yw gwirio bod y gwariant a ddatganwyd ym mhob hawliad, sy'n ymwneud â phob un o'r buddiolwyr, yn gymwys, wedi ei dalu - neu'n cydymffurfio â rheolau cost wedi'u symleiddio os yw hynny'n gymwys - a'i fod yn cydymffurfio â chyfraith gymwys, y rhaglen weithredol ac amodau cymorth y gweithrediad.

ATODIAD CH

'Gweithgarwch economaidd' o fewn cyd-destun rheolau Cymorth gwladwriaethol

Nodyn pwysig: Darperir y wybodaeth ganlynol er mwyn helpu i ddeall beth yw ystyr y cyfeiriad yn y ddogfen ganllawiau hon at 'weithgareddau economaidd'. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r canllawiau hyn roi cyngor nac arweiniad ar reolau Cymorth gwladwriaethol ac felly ni ddylid dibynnu arnynt at y diben hwn. Bydd WEFO yn gallu gofyn i uned Cymorth gwladwriaethol Llywodraeth Cymru am gyngor ar achosion penodol ond yn y pen draw, cyfrifoldeb darpar dderbynwyr cymorth neu weinyddwyr - buddiolwyr neu Gyrrff Canolraddol - yw ceisio eu cyngor cyfreithiol arbenigol eu hunain ar gydymffurfio â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd megis Cymorth gwladwriaethol.

Mae'r canlynol yn seiliedig ar ddatganiadau'r Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar:⁴

- Mae Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd wedi dadlau'n gyson fod unrhyw weithgarwch sy'n cynnwys cynnig nwyddau a gwasanaethau ar unrhyw farchnad yn weithgarwch economaidd.
- Mae'n anodd diffinio bodolaeth 'marchnad': gall yr hyn nad yw'n weithgarwch economaidd heddiw fod yn un yn y dyfodol, ac i'r gwrthwyneb. Felly, nid yw'n bosibl llunio rhestr o 'weithgareddau economaidd' yn yr UE gan y bydd yn newid dros amser ac yn amrywio o wlad i wlad.
- Gall gweithgarwch economaidd fodoli, mewn amodau marchnad agored, pan fyddai gweithredwyr eraill yn fodlon ac yn gallu darparu'r gwasanaeth yn y farchnad dan sylw. Felly, nid yw penderfyniad gan awdurdod cyhoeddus i beidio â chaniatáu i drydydd partion ddarparu gwasanaethau penodol, gan ffafrio darpariaeth fewnol, yn diystyru presenoldeb 'gweithgarwch economaidd'.
- Lle mae cyrff cyhoeddus yn cynnig gwasanaethau sy'n economaidd eu natur pan fo sefydliadau preifat eraill sy'n cystadlu yn bodoli, fe'u hystyrir yn weithgareddau economaidd.
- Gall buddsoddiadau seilwaith fod yn weithgarwch economaidd os bwriedir iddynt gael eu defnyddio'n fasnachol, er enghraifft, rhedfa maes awyr masnachol.
- Nid yw absenoldeb cynigion tendro na datganiadau o ddiddordeb/dyfnynbrisiau yn dilyn hysbysebu, na'r anallu i nodi darpar ddarparwyr yn golygu bod gweithgarwch y tu allan i gwmpas rheolau Cymorth gwladwriaethol. At bob diben

ymarferol, tybir bod cystadleuaeth wedi'i hystumio pan roddir cymorth mewn sector wedi'i rhyddfrydoli lle mae cystadleuaeth neu lle y gallai fod cystadleuaeth.

- Nid oes risg o ystumio cystadleuaeth pan ddarperir cymorth cyhoeddus i fonopoli cyfreithiol (a sefydlwyd mewn cydymffurfiaeth â chyfraith yr UE), nad yw'n cystadlu â gwasanaethau (wedi'u rhyddfrydoli), a phan na all y gwasanaeth fod yn weithredol, oherwydd cyfyngiadau rheoliadol neu statudol, mewn unrhyw farchnad arall wedi'i rhyddfrydoli (daearyddol neu gynnyrch).
- Yn yr un modd, er bod Cymorth gwladwriaethol yn ymwneud ag ystumio masnach o fewn yr UE, gellir ystyried cymorth cyhoeddus fel Cymorth gwladwriaethol hyd yn oed os nad yw'r derbynnydd yn uniongyrchol gysylltiedig â masnach drawsffiniol oherwydd, er enghraifft, gallai cymorthdaliadau cyhoeddus ei gwneud yn fwy anodd i weithredwyr economaidd mewn Aelod-wladwriaethau eraill o'r UE ymuno â'r farchnad drwy gynnal neu gynyddu cyflenwad lleol.
- Hyd yn oed i sefydliadau sydd ond yn darparu gwasanaethau lleol neu ranbarthol, gallai cymorth cyhoeddus fod yn gyfystyr â Chymorth gwladwriaethol oherwydd gallai gael effaith andwyol ar weithredwyr mewn Aelod-wladwriaethau eraill a allai fod yn awyddus i ddarparu'r gwasanaethau hynny neu ymsefydlu mewn Aelod-wladwriaeth arall.

ATODIAD D

Ddarpariaeth Uniongyrchol neu Gaffael: Achosion Penodol

Senario 1: Gweithgarwch prosiect a aseswyd yn weithgarwch 'economaidd' (o ran Cymorth gwladwriaethol) ond nid yw'r buddiolwr yn gallu nodi contractwr addas i gyflawni'r gwaith. Fel arall, mae WEFO yn cytuno bod rhesymau cymhellol dros nodi mai darpariaeth uniongyrchol yw'r opsiwn cyflawni gorau, hyd yn oed os yw'n 'economaidd' o ran Cymorth gwladwriaethol.

Gallai'r senario hwn godi, er enghraifft:

- Pan nad oes marchnad weithredol o ddarpar ddarparwyr ar gyfer y math o waith neu wasanaethau sy'n ofynnol (o fewn yr UE); neu
- Pan fo marchnad yn bodoli ond ni cheir unrhyw gynigion gan ddarpar ddarparwyr yn dilyn proses hysbysebu agored neu gyflwyno gwahoddiadau uniongyrchol i gyflwyno tendr; neu
- Pan fydd WEFO yn cytuno, ni waeth pwy yw'r darpar gynigwyr yn y farchnad, na'u diddordeb mewn cynnig am y contract, nad oes angen hysbysebu contract gan fod rhesymau cymhellol dros nodi pam y dylai'r buddiolwr ddarparu'r gweithgareddau yn uniongyrchol ei hun. Er enghraifft: lle mae gan y buddiolwr rôl unigryw neu arbenigol yn y gweithgareddau arfaethedig na allai ddarparu'r eraill eu hatgynhyrchu; gweithgareddau penodol yn y sector addysg bellach (gweler senario 3 isod); manteision gwerth am arian sylweddol; cydberthynas unigryw â grŵp cleientiaid targed ESF ac ati.

Yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod bod rheolau Cymorth gwladwriaethol yn ymwneud â'r gallu i ystumio marchnadoedd sy'n cystadlu. Mae rheolau Cymorth gwladwriaethol hefyd yn ymwneud â ddarpar farchnadoedd h.y. gallai ddarparu cymorth cyhoeddus nawr arwain at wydroi'r farchnad drwy ychwanegu rhwystrau i atal ddarpar weithredwyr economaidd rhag ymuno â'r farchnad yn y dyfodol. Er enghraifft, gall ddarpar ddarparwyr yn y dyfodol yng ngwledydd eraill yr UE gael eu hatal rhag ymsefydlu yn y DU os bydd llywodraethau, i bob diben, yn rhoi cymorthdaliadau i'r cwmnïau domestig sefydledig.

Yn yr un modd, mae rheolau Cymorth gwladwriaethol yn ymwneud â marchnad gyfan yr UE, ac nid marchnadoedd rhanbarthol neu genedlaethol. Felly gallai hyn olygu bod angen i brosiect weithredu 'gweithgarwch economaidd' ond nid yw ddarpar ddarparwyr yn cynnig am y gwaith oherwydd nid ydynt am, neu ni allant, wasanaethu'r ardal ddaearyddol benodol lle y mae'n rhaid cyflawni'r gwaith dan gontract.

Yn y senario hwn:

- Mae WEFO yn caniatáu i'r buddiolwr ddarparu'r gweithgareddau yn uniongyrchol os yw'n cydymffurfio â rheolau Cymorth gwladwriaethol. Felly mae angen cael Cymorth gwladwriaethol addas e.e. cymorth de minimis, eithriad bloc (GBER), a ddosberthir fel 'dim cymorth' o dan fframwaith neu ganllawiau'r Comisiwn, Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol, cymeradwyaeth unigol ymlaen llaw gan y Comisiwn ac ati.
- Os yw'r penderfyniad i ganiatáu darpariaeth uniongyrchol yn seiliedig ar absenoldeb cynigion gan ddarpar ddarparwyr, mae WEFO yn dal i'w gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr hysbysebu'r cyfle am gontract yn y ffordd arferol a chadw dogfennau ategol i gofnodi'r ffaith na dderbyniwyd unrhyw gynigion, neu gynigion addas. Yn amlwg, ni ddylid awgrymu bod buddiolwyr yn llunio manylebau a hysbysebion contract mewn ffordd sy'n atal darpar ddarparwyr rhag cynnig am y gwaith.
- Yn yr un modd, dylid cadw cofnodion, os ydynt yn gymwys, i gyfiawnhau pam y penderfynwyd y byddai hysbysebu'r cyfle am gontract yn ddifudd oherwydd, er enghraifft, roedd digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw ddarpar gynigwyr yn y farchnad.
- Lle mae WEFO wedi cytuno nad oedd angen i'r cyfleoedd am gontractau gael eu hysbysebu (anodd i'w hatgynhyrchu, unigryw, cysylltiad arbenigol â grŵp cleientiaid targed ac ati), yna rhaid i'r buddiolwr gadw tystiolaeth i nodi bod WEFO wedi darparu'r cytundeb hwn, naill ai drwy ddisgrifiad gwreiddiol y cynllun busnes neu ar wahân drwy gyfrwng e-bost neu ddull cyfathrebu tebyg gan WEFO.
- Cofiwch, mae 'darpariaeth uniongyrchol' gan y buddiolwr yn golygu y gall y costau cymwys gael eu datgan i WEFO ond ni all y buddiolwr ychwanegu elw/ychwanegiad at ei gostau fel pe bai'n cyflawni contract ar delerau masnachol.

Lle nad oes Cymorth gwladwriaethol ar gael ac ni all y buddiolwr ennyn diddordeb unrhyw ddarpar ddarparwyr ar y farchnad, bydd angen i'r buddiolwr ystyried datrysiadau amgen megis:

- ailddylunio manyleb y gweithgareddau fel eu bod yn fwy cyson â'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y gallai darpar ddarparwyr eu cyflawni'n ymarferol:
- mewn gweithrediadau cydweithredol, ailystyried pa fuddiolwyr sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni gweithgareddau'r gweithrediad o gofio'r Cymorth gwladwriaethol sydd ar gael i bob sefydliad (e.e. mynediad at gymorth de minimis); neu
- os bydd y buddiolwr fel arfer yn darparu'r gweithgareddau economaidd dan sylw ar sail fasnachol, gall fod yn bosibl defnyddio '*gweithredwr economaidd y farchnad*' Cymorth gwladwriaethol os oes digon o dystiolaeth ar gael i ddangos prisiau'r farchnad a godir fel arfer ar gyfer y gwaith. Gall hyn fod yn anodd i'w weinyddu a'i archwilio a dylai buddiolwyr felly drafod hyn â WEFO os mai hwn yw'r unig opsiwn. Mae'n debygol y bydd angen rhoi cyngor cyfreithiol arbenigol/Cymorth gwladwriaethol i'r buddiolwr ar yr opsiwn hwn.

Senario 2: Buddiolwr eisiau gwneud cynnig am contractau

Yn y senario hwn, bydd angen caffael o ran y model cyflawni ond efallai y bydd y buddiolwr, neu gwmni sydd â chysylltiad agos ag ef, yn dymuno gwneud cynnig am y contract.

Egwyddorion cyffredinol

Ni all WEFO gydnabod contractau a ddyfarnwyd i fuddiolwr ganddo'i hunan oherwydd na fyddai taliadau contract dilynol yn bodloni'r diffiniad o gost yn cael ei dalu allan mewn gwirionedd gan y buddiolwr. Byddai hefyd yn anodd asesu perfformiad o ran y contract a cheisio cael unioni'r sefyllfa pan fo achos o danberfformio os yw'r sefydliad sy'n contractio a'r contractwr yr un endid cyfreithiol. Felly, waeth beth fo dilysrwydd cyfreithiol contractau o'r fath, byddai WEFO yn ystyried bod trefniadau o'r fath yn 'ddarpariaeth uniongyrchol', nid darpariaeth a gaffaelwyd gan contractwr (gweler 2.2, Senario B).

Mae hyn yn golygu hefyd bod yn rhaid ystyried Cymorth gwladwriaethol, gan fod y buddiolwr yn derbyn arian cyhoeddus (grant) yn gymhorthdal ar gyfer gweithgareddau economaidd yn hytrach na chael taliad am wasanaeth (contract).

Er gwaethaf yr heriau hyn, gall buddiolwr ddadlau bod achos cryf i WEFO ganiatáu iddo ddarparu gweithgarwch yn uniongyrchol yn hytrach na chaffael am ddarpariaeth.

Mewn achosion o'r fath, bydd WEFO yn ystyried, fesul achos, eithriadau â chyfiawnder priodol o ran tybio darpariaeth gaffael – gweler Senario 1 uchod am fanylion. I gymeradwyo dull gweithredu o'r fath, byddai angen i WEFO fod yn argyhoeddedig o gryfder yr achos i liniaru risg o gwynion posibl gan ddarparwyr marchnad eraill bod un o'u cystadleuwyr - y buddiolwr - yn cael cymhorthdal cyhoeddus i ddarparu gweithgarwch economaidd/masnachol (er y byddai'n cydymffurfio â rheolau Cymorth gwladwriaethol). Am y rhesymau hyn, defnyddir y dull gweithredu hwn 'drwy eithriad' yn unig.

Os bydd WEFO yn cytuno y caiff y buddiolwr gyflawni'r gweithgareddau, byddai hyn yn cael ei drin fel 'darpariaeth uniongyrchol', nid fel 'darpariaeth dan contract'.

Gweithrediadau sydd â mwy nag un buddiolwr

Fel yr esboniwyd yn adrannau 1.1 ac 1.2, ystyrir bod pob 'buddiolwr arweiniol' neu 'gyd-fuddiolwr' yn cyflawni 'prosiect' ar wahân o fewn y gweithrediad cyffredinol. Mae pob prosiect yn cynnwys un neu ragor o feysydd o 'weithgarwch' prosiect. Am y rhesymau hyn, mae'n bosibl y gall gyd-fuddiolwr neu fuddiolwr arweiniol gyflawni gweithdrefnau caffael ar gyfer eu gweithgarwch prosiect eu hunain.

Mae'n bosibl i fuddiolwr wneud cynnig am contractau a ddyfernir gan fuddiolwyr eraill yn yr un gweithrediad oherwydd y ceir dau endid cyfreithiol - y sefydliad sy'n

contractio a'r cynigydd/contractwr. Os bydd y cynigydd (sy'n digwydd bod yn fuddiolwr hefyd) yn llwyddiannus, swyddogaeth contractwr / darparwr gwasanaeth a gaffaelwyd fyddai ganddo wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny / gwaith hwnnw ar gyfer y gweithgarwch prosiect hwnnw.

Fodd bynnag, mae risgiau uwch o ran cydymffurfio yn gysylltiedig â dull gweithredu o'r fath ac mae angen eu hystyried yn ofalus.

Er bod cyngor ynghylch gweithdrefnau caffael y tu allan i gwmpas y ddogfen hon, mae'n werth nodi rhai o'r egwyddorion allweddol a'r risgiau cysylltiedig:

- Ni ddylai bod gan y cynigydd (buddiolwr) unrhyw fantais ac ni ddylai gael ei drin yn ffafriol o gymharu â chynigwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys gwell mynediad at wybodaeth neu bersonél sydd ar y tîm caffael.
- Byddai angen cymryd gofal arbennig o ran gwybodaeth a geir yn y cynllun busnes WEFO, dogfennau ymgeisio cysylltiedig, cytundeb ariannu WEFO, a dogfennau tebyg y byddai modd i'r cynigydd (buddiolwr) gael gafael arnynt. Efallai y bydd angen darparu unrhyw wybodaeth yn y dogfennau hyn sy'n berthnasol i'r weithdrefn gaffael i bob cynigydd / cynigydd posibl.
- Mae hyn yn arbennig o heriol os yw buddiolwr arweiniol yn bwriadu gwneud cynnig am gontract a ddyfernir gan gyd-fuddiolwr, oherwydd bydd gan y sefydliad arweiniol wybodaeth drylwyr am bob gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio a chyllidebau bras ar gyfer gweithgarwch caffael

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o wrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol mewn gweithdrefnau caffael o'r fath, mae WEFO yn argymhell y dylid cael cyngor arbenigol ar gaffael a/neu gyngor cyfreithiol o ran rhoi trefniadau diogelu priodol ar waith. Gallai'r trefniadau hyn gynnwys gweithdrefnau gwrthdaro buddiannau mwy trylwyr; comisiynu timau caffael annibynnol neu allanol; muriau moesegol clir (rhwystrau corfforol, rheolaethol a chyfathrebu rhwng y cynigydd a'r tîm caffael).

Dyfarnu contractau i gwmnïau sydd â chysylltiad agos â buddiolwr

Cyflwynir cytundeb ariannu WEFO i endid cyfreithiol unigol – nid i grŵp o gwmnïau. Felly, mae'n bosibl i gynigion am gontract gael eu cyflwyno gan endidau cyfreithiol eraill, hyd yn oed os oes ganddynt gysylltiad agos â'r buddiolwr, e.e.

- Is-gwmnïau
- Cwmnïau cysylltiedig
- Cyd-fentrau / Cyfryngau at ddibenion arbennig
- Cwmnïau eraill a allai gael eu dylanwadu neu eu rheoli gan y buddiolwr neu ei gyfarwyddwyr (cyfarwyddwyr cyffredin; perchnogion cyffredin, ac ati).

Caiff y cwmnïau cysylltiedig hyn wneud cynnig am gontractau a ddyfernir gan y buddiolwr, a chael eu cydnabod gan WEFO fel darpariaeth gaffael, yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- Bod yr holl gynigwyr yn cael eu trin yn gyfartal ac nad oes unrhyw driniaeth ffafriol neu arbennig (hynny yw, yr un egwyddorion â'r rhai a esboniwyd yn yr adran 'gweithdrefnau sydd â mwy nag un buddiolwr' uchod).
- Mae'n rhaid i gontract fodoli rhwng dau endid cyfreithiol ar wahân (y sefydliad sy'n contractio a'r contractwr).
- Mae'n rhaid i daliadau contract gael eu halldalu o gyfrif banc y buddiolwr ('talw allan') a'u trosglwyddo i gyfrif banc y contractwr. Ni fyddai trafodiad tybiannol / addasiadau cyfrifyddu rhwng cwmnïau yn dystiolaeth dderbyniol fod y taliadau contract wedi cael eu talu allan mewn gwirionedd.

Senario 3: Tybio darpariaeth uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau penodol a ddarperir gan sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru

Pan fydd gweithgareddau prosiect yn gyson â gweithgareddau craidd sefydliadau addysg bellach a ariennir gan y llywodraeth - neu'n unol â hwy/atodol iddynt, nid yw WEFO yn ystyried bod cyflawni gweithgarwch o'r fath yn cael effaith sylweddol ar y farchnad ac, yn unol â hynny, caniateir darpariaeth uniongyrchol gan y buddiolwr, ar yr amod bod WEFO yn fodlon bod hyn yn cynrychioli defnydd gwerth am arian o gronfeydd cyhoeddus yr UE.

Y rheswm am y dull gweithredu hwn yw bod gan y sector addysg bellach yng Nghymru sail statudol, ac mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth ac am ariannu addysg bellach a hyfforddiant craidd.

Fodd bynnag, lle yr asesir bod y gweithgarwch yn 'economaidd' ei natur - o safbwynt Cymorth gwladwriaethol, gan adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddaraf Cymorth gwladwriaethol a chyfraith achosion ar adeg yr asesiad - rhaid cynnig y ddarpariaeth yn gystadleuol drwy ymarfer caffael. Fel arfer, bydd hyn yn gymwys lle mae gweithredwyr eraill y farchnad eisoes yn cyflawni'r gweithgarwch yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan y sefydliad (e.e. ar sail fasnachol neu o dan raglenni cyhoeddus eraill). Bydd gan fuddiolwyr y cyfle hefyd i wneud cynnig i gyflawni'r gweithgarwch fel y nodir yn senario 2 uchod.

Os bydd gweithrediad yn cynnwys gweithgareddau economaidd ac aneconomaidd sy'n ymwneud â nifer o gyd-fuddiolwyr, bydd WEFO yn rhoi trefniadau ar waith fel y gellir neilltuo'r gweithgarwch aneconomaidd at ddarpariaeth uniongyrchol a'r gweithgarwch economaidd at ddarpariaeth dan gontract.

Senario 4: Dyfarniadau contract heb gystadleuaeth (dyfarniad uniongyrchol)

Ar gyfer gwaith, cyflenwadau a gwasanaethau penodol, dim ond un contractwr, darparwr neu gyflenwr posibl sydd yn y farchnad am fod ganddynt yr **hawl unigryw** i gyflawni'r gwaith hwnnw o dan ddeddfau, rheoliadau neu ddarpariaethau gweinyddol tebyg cenedlaethol neu Ewropeaidd, er enghraifft, mewn diwydiannau rheoledig ag un darparwr (monopoli cyfreithiol).

Pan fydd angen i brosiect gael y gwaith, y gwasanaethau neu'r cyflenwadau hyn, mae'n dderbyniol ymrwymo'n uniongyrchol i gcontractau heb hysbysebu gan nad oes angen ymarfer caffael agored yn amlwg.

Sail prisio contractau

Heb farchnad gystadleuol, ni fydd y buddiolwr yn gallu pennu 'gwerth ar y farchnad' fel sicrwydd o'r defnydd gwerth am arian o gyllid cyhoeddus. Felly, rhaid i'r contract gael ei brisio yn unol â'r dull a nodir yn y darpariaethau cyfreithiol neu reoliadol (e.e. tariffau rheoledig, cardiau cyfradd y diwydiant, prisiau cost ac elw statudol ac ati).

Lle nad oes meincnod prisio na strwythur prisiau rheoledig ar gael - anaml iawn y byddai hyn yn digwydd oherwydd, i bob diben, gallai'r contractwr 'enwi ei bris ei hun' os nad oes unrhyw gystadleuaeth - yna dylid dilyn y dull gweithredu canlynol:

- Gall prisio contract adlewyrchu 'costau llawn' y gwaith, y gwasanaethau neu'r cyflenwadau.
- Dim ond lle y gall y buddiolwr gael tystiolaeth ddibynadwy ac archwiliadwy o'r elw/ychwanegiadau hynny a gymhwysir fel arfer gan y contractwr ar gyfer yr un math o waith neu wasanaethau, neu waith neu wasanaethau tebyg yn fras, y gellir defnyddio maint yr elw/ychwanegiadau at gostau.
- Mae 'costau llawn' yn golygu'r holl gostau sy'n cael eu cofnodi yn system gyfrifyddu'r contractwr sydd wedi'u codio neu eu cysylltu â pherfformiad y contract ac sy'n dibynnu ar gymhwyso arferion cyfrifyddu arferol y contractwr. Felly mae dosrannu costau canolog y contractwr, megis gorbenion eiddo, yn gostau cymwys os ydynt yn unol ag arfer cyfrifyddu arferol y contractwr ar gyfer adennill costau canolog wrth brisio contractau. Fodd bynnag, ni ddylai 'costau llawn' gynnwys yr eitemau gwariant nas caniateir yn benodol o dan reolau cymhwysedd cenedlaethol Cronfeydd Strwythurol Cymru megis darpariaethau drwgddyledion, rhoddion gwleidyddol, rhoddion, rhwymedigaethau wrth gefn ac ati, fel y'u nodir yn nogfen WEFO '*Rules and Conditions for Support from the European Structural and Investment Funds 2014-2010*'.
- Mae contractio ar sail 'cost' yn feichus yn weinyddol, ac yn peri risg o safbwynt cydymffurfio, gan fod angen i'r buddiolwr gynnal profion rheolaidd ar gofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol y contractwr er mwyn gwirio'r symiau a ddatganwyd yn anfonebau'r contractwr. Rhaid i'r buddiolwr felly sicrhau bod y telerau contract y cytunwyd arnynt yn cynnwys yr hawliau mynediad sydd eu

hangen i wirio'r costau hyn. Bydd angen i archwiliadau a gwiriadau Cronfeydd Strwythurol hefyd weld dogfennau ategol ar safle'r buddiolwr sy'n cadarnhau bod y buddiolwr wedi cynnal y profion hyn cyn iddo gymeradwyo talu'r anfonebau cysylltiedig.

- Ni ddylai'r contractwr fod yn fuddiolwr yn y gweithrediad.



Am ragor o wybodaeth:
www.llyw.cymru/ue-ariannu
 @wefowales / @wefocymru

Desg gymorth Ymholiadau 0845 010
 3355

Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng
Nghymru
EU Funds:
Investing in Wales



Llywodraeth Cymru
 Welsh Government